

ECO'R WYDDFA

Rhif 171

GORFFENNAF — AWST

Pris 25c

Athrawon y Fro ar Grwydr O Ben Llŷn i Brwnei



Fis Medi nesaf bydd athrawes ifanc sy'n enedigol o fro'r Eco yn dechrau yn ei swydd newydd ymhell iawn o ardal ei chartref. Yn Ysgol Cymerau, Pwllheli y mae Delyth Parry yn dysgu ers tair blynedd bellach, ond ar ôl yr haf bydd yn un o athrawon ysgol Panaga yn nhref Seria yn Brwnei.

Swltanaeth Foslemaidd fechan yw Brwnei ar ynys fawr Borneo yn ne-ddwyrain Asia. Cyflogwr newydd Delyth fydd y cwmni olew rhyngwladol Shell.

Dechreuodd y cyfan pan gynnigiodd un o'i chyd-athrawesau sgwrsio o brofiad gyda phlant dosbarth Delyth am gartrefi yn Brunei, lle y treuliodd bum mlynedd yn gweithio i gwmni Shell. Dangosodd Delyth ddiddordeb mewn gweithio dramor a chynigiodd am un o ddwy swydd yr oedd Shell yn eu hysbysebu. Er, yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, ei bod yn 'ofnadwy o nerfus,' mae'n amlwg iddi wneud argraff arbennig o dda yn ystod ei chyfweliad yn

Llundain. 'Roedd cannoedd o ymgeiswyr am y ddwy swydd.

Cyd-ddigwyddiad od yw bod Delyth wedi ei lleoli yn yr un ysgol yn union ag y bu ei chydweithwraig yn dysgu ynddi. Ysgol o tua 500 o blant gweithwyr cwmni Shell yw hi, wedi ei lleoli ar gampws mawr — rhyw fath o dref o fewn tref gyda'r holl wasanaethau angenrheidiol megis ysbytai, capeli, eglwysi, canolfannau siopa a hamdden ac yn y blaen. Bydd Delyth yn cael tŷ iddi ei hun nid nepell o'r ysgol.

Er bod tua phymtheg o ieithoedd yn cael eu siarad yn y rhanbarth, y brif iaith yw Malayeg. O fewn yr ysgol y cyfryngau dysgu

Ffarwel a Chroeso Bethel



Ganol Gorffennaf bydd Islwyn Jones yn ymddeol o'i swydd fel pennaeth Ysgol Gynradd Bethel — swydd y bu ynddi ers chwarter canrif.

Cyn iddo gychwyn ar ei waith yn ôl yn Ionawr 1966, bu yn dysgu yn Lerpwl, Dolgarrog a Llanfairfechan.

Er ei fod yn ymddeol bydd Islwyn yn cadw'n brysur o hyd fel Clerc Cyngor Cymuned Llanberis. Caiff hefyd fwy o gyfle i ganolbwyntio ar ei hobiau sef golff a ffotograffiaeth. (Bu ar un cyfnod yn tynnu a datblygu lluniau i'r Eco).

Estynnwn ein dymuniadau gorau iddo am ymddeoliad hapus. Ar yr un pryd, dymunwn yn dda i Ian Pierce, yntau fel Islwyn Jones, o Lanrug, ar ei benodiad yn bennaeth Ysgol Bethel. Y mae Ian, a fu hefyd yn gweithio i'r Eco beth amser yn ôl, yn symud o Ysgol Beddgelert lle mae'n bennaeth. Bydd yn dechrau ar ei swydd

newydd ym mis Medi.

O Lanrug i Llanfairpwll

Ein dymuniadau gorau hefyd i Dafydd Idriswyn Roberts sy'n gorffen fel pennaeth Ysgol Gynradd Llanrug yr haf yma i gymryd yr awenau yn Ysgol Llanfairpwll ym mis Medi. Mae'n byw yn Rhoscefnhir ym Môn ond mae wedi treulio ei holl yrfa ym mro'r Eco. Bu'n athro ac yna'n ddirprwy yn Llanrug; yn bennaeth yng Nghwm-y-glo am bedair blynedd, ac yna, yn ôl i Lanrug fel pennaeth am y tair blynedd ddiwethaf.

yw'r Saesneg ac Is-almaeneg. Mae dwy athrawes arall o Gymru yn yr ysgol — un o'r gogledd a'r llall, sy'n ddirprwy bennaeth, o sir Benfro.

Mae Delyth sydd yn athrawes ers dim ond tair blynedd yn edrych ar y peth fel cyfle gwyb i ennill profiad ar ddechrau ei gyrfa fel hyn. Contract o ddwy flynedd sydd ganddi a bydd y cwmni yn trefnu iddi gael dod adref bedair gwaith yn ystod y cyfnod yna. Mae'n edrych ymlaen hefyd at gael teithio o fewn y wlad ac i lefydd fel Singapôr a'r ynysoedd eraill.

Fel athrawes dda, mae wedi gwneud ei gwaith cartref ar ei hamgylchfyd newydd! Bydd yn byw mewn ardal gyhydeddol lle ceir haul cryf a lleithder (pur wahanol i'r rhan hon o Wynedd lle ceir fawr ddim ond lleithder y dyddiau yma!) Ffaith ddiddorol am bobl y wlad, meddai Delyth, yw eu bod mor fychan fel nad oes neb yn fwy na seis 4 mewn 'sgidiau. "Dwi'n seis 7, felly bydd rhaid imi fynd â'r holl 'sgidiau fydda i eu hangen efo fi!" meddai.

Mae Delyth, sy'n ferch i Ann a Bert Parry, Sycharth, Llanberis, wedi teithio, yn enwedig o gwmpas Ewrop, o'r blaen. Efallai iddi

etifeddu rhywfaint o ysfa crwydro ei thad a fu yn y llynges fasnachol ac sydd, yn y gorffennol, wedi ymweld â Borneo 'ar ei drafals'.

Ar ôl iddi gynefino yn ei swydd a'i hamgylchfyd newydd mae Delyth am anfon ychydig o'r hanes i'r 'Ffynnon,' papur bro ei hardal (mae hi'n byw ym Mhencae) ac i'r Eco.

Llun: Ffrindiau pennaf — Delyth a Nia. P'run fydd yn hiraethu fwyaf tybed?

Taith Doli Bethan

Mae cannoedd o bobl a phlant lleol wedi anfon tunelli o ddillad ac offer i apêl y Cwrdiaid yn ystod yr argyfwng diweddar.

Roedd un ferch fach o Fethel wedi anfon doli wedi ei gwisgo mewn siwt felen — a wyddoch chi beth! — tra'n gwyllo 'Y Byd ar Bedwar' o Gwrdistan yn ddiweddar fe welodd yr union ddoli ym mreichiau merch fach!

Dyna beth braf — cael gwybod a gweld bod yr hyn a anfonodd plentyn o fro'r Eco yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu bod yn gysur i rhywun sydd wirioneddol angen hynny.

ECO'R WYDDFA

RHIF 171
GORFFENNAF/AWST 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAETHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOL: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, AWST 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
AWST 20
os gwelwch yn dda.

Llafar

Yma o Hyd — Gwaetha'r Modd

Yn rhifyn Ebrill y llynedd — ie Ebrill 1990 — cyhoeddwyd llun y llanast sgrap ger Penllyn, Brynrefail. Yn ôl a ddeallwyd ar y pryd, nid oedd caniatâd cynllunio wedi ei roi i'r fath flerwch. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bu swyddogion Cyngor Arfon yn gweithredu er mwyn dwyn gorchymyn ar i'r llanast gael ei glirio.

Yn rhifyn Mawrth eleni — ie Mawrth 1991 — adroddwyd fod y Swyddfa Gymreig wedi cadarnhau gweithred Cyngor Arfon a bod dyddiad wedi ei glustnodi pryd y dylai'r safle fod yn glir o'r blerwch. Y dyddiad hwnnw oedd diwedd yr wythnos gyntaf ym Mehefin — eleni.

Mae hi bellach bron yn fis Gorffennaf ond mae'r blerwch yn parhau ar y safle.

Teg gofyn pam. Pam nad yw'r person sy'n gyfrifol am y safle wedi ei glirio yn ôl gofynion Cyngor Arfon? Pam nad yw swyddogion Cyngor Arfon yn dwyn pwysau ar y perchennog i ufuddhau i'r gorchymyn clirio? A pham nad oes prin unrhyw un o drigolion y fro hon wedi cysylltu â swyddogion Cyngor Arfon i holi pam na chliriwyd y safle?

Ydan ni wedi mynd mor ddi-feind â hynny ynglŷn â'n hamgylchedd?

Nid cam yn ôl — Ond a fydd cam ymlaen?

Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â'r bwriad i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae sir Gwynedd i'w darnio unwaith yn rhagor. Statws ar ei phen ei hun i Fôn; Aberconwy i ymuno â Cholwyn, ac Arfon i gofleidio Dwyfor a Meirion.

Trigolion Môn yn llawenhau, ond ar ba sail? Rhai yn credu eu bod yn dychwelyd i swyddogaeth yr hen Sir Fôn cyn yr ad-drefnu ar ddechrau'r saith-degau. Ond yn sicr, nid camu'n ôl i'r cyfnod hwnnw fydd yr ad-drefnu newydd. Mae un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor Sir yn prysur ddiflannu, sef Addysg, gyda'r mwyafrif o ysgolion bellach â rheolaeth leol dros gyllid a chyflogi.

A pha reswm sydd dros gysylltu Bangor, Pwllheli a Dolgellau i ofal un cyngor? Onid y pellter a'r diffyg cysylltiad oedd yn cael ei feirniadu fel un o wendidau Gwynedd? Nid yw hepgor Môn ac Aberconwy o'r 'hen Wynedd' a bwndelu Arfon, Dwyfor a Meirion i fasged y Wynedd 'newydd' fawr o newid. Faint elwach fydd y Wynedd wledig 'newydd'?

A beth am y cynghorau cymuned? Bu darogan fod mwy o nerth gweithredol i'w drosglwyddo iddynt hwy, ond hyd yma, ni ddaeth unrhyw oleuni ar eu swyddogaeth yng nghyswllt yr ad-drefnu. Un ddamcaniaeth yw fod y cynghorau cymuned presennol yn cyfuno i greu un cyngor newydd fydd yn gyfrifol mwy neu lai am ddalgylch ysgol uwchradd.

Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug yn diflannu, a chynghor bro dalgylch Ysgol Brynrefail i'w disodli. Sut mae Cyngor Bro Peris yn swnio i chi?

AR WERTH

Mini Clubman Estate S. Reg, wedi methu MOT; cryn dipyn o waith i'w wneud arno, ond peiriant yn iawn. Cynigion? Wilkinet Baby Carrier, navy needlecrod; fel newydd. 10. Maclaren Sovereign Lie-flat buggy, glas a choch (gyda basged, gorchudd glaw a 'hood'. 75. ('Foot-muff' a pharasol ar werth

hefyd, ar wahân neu'n ychwanegol i'r buggy).

Fisher Price Musical Activity Centre — cyflwr da. 8.

Triang Buggy Trike i blentyn bach, 11/2 i 3 oed. 8.

Yr uchod i gyd ar gael o 3 Bryn Eglwys, Penisarwaen. Ffôn: Llanberis 872438.

Llythyrâu

FFURFLEN R185 (AP) W

Annwyl Syr,
Ar ôl hir bwyso y mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi llwyddo i gael yr Adran Dreth Incwm i gyhoeddi yn Gymraeg Dystysgrif Tynnu Treth Incwm — Taliad Blynnyddol dan Weithred Gyfamodi.

Fe fydd trysoryddion eglwys ac elusennau Cymru yn ei hadnabod fel y ffurflen R185 (AP) sy'n caniatáu'r ad-daliad gwerthfawr o dreth a ddaw yn sgîl cyfraniadau dan gyfamod.

Yn awr bod y ffurflen yma i'w chael yn Gymraeg, a gaf fi apelio at drysoryddion eglwys ac elusennau Cymru i'w defnyddio yn rheolaidd. Rhif y ffurflen yw R185 (AP) W ac fe ellir ei chael trwy anfon at eich swyddfa dreth incwm lleol.

Yr eiddoch yn gywir,

EMYR JENKINS

Cyfarwyddwr

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

40 Parc Tŷ Glas

Llanishen

Caerdydd

Galw Cyn-fyfyrrwyr

Os oeddech chi'n fyfyrwr/wraig yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth ac yn arfer byw yn Neuadd Pantycelyn yna gall yr apêl sy'n dilyn fod o ddiddordeb i chi. John Davies, Warden Pantycelyn, a'i hanfonodd atom.

Oes gennych chi lais canu? Ydych chi'n cofio bod yn fyfyrwr yn Neuadd Pantycelyn? Ydych chi am ddod i Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth? Mae cynlluniau ar y gweill i godi côr o gyn-fyfyrrwyr y neuadd hon. Beth am fod yn aelod?

Y bwriad ar hyn o bryd yw ceisio ffurfio côr ar gyfer cystadleuaeth y Côr Cymysg gan drefnu penwythnos neu ddwy ar gyfer ymarferiadau rhwng y Pasg a'r Eisteddfod. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, os oes gennych ddiddordeb, a fydddechystal â gyrru amlen wedi ei stampio a'i chyfeirio at Gôr Neuadd Pantycelyn, Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth cyn gynted â phosib (Ffôn: 0970 623642).

Cofiwch does dim angen Carreras neu Bavaroti i ganu mewn unrhyw gôr, hwn yn arbennig. Cael hwyl ydi'r nôd dan arweiniad Robert Nicholls a dangos i Gymru gyfoeth y doniau sydd wedi bod yn y neuadd wych hon!

SEIBIANT (I RAI)

Daw y rhifyn nesaf
o'r Eco o'r wasg ar
Awst 29. Pob hwyl
i'n holl ddarllenwyr
dros gyfnod gwyliau
haf yr ysgolion.

Rôl Allweddol a Chanolog i'r Antur

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis ar nos Fercher, Mehefin 12 cadarnhaodd Mr Alun Daniel, Cyfarwyddwr Gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru bod Dyffryn Padarn erbyn hyn yn dod o dan Gynllun Menter Cefn Gwlad Cymru ac y bydd gan Antur Padarn rôl allweddol a chanolog iawn i'w chwarae yn y datblygiad hwn.

Rhagwelir mai mantais mwyaf y Cynllun yw y bydd Awdurdod Datblygu Cymru mewn sefyllfa i gyllido cynlluniau y mae pobl Dyffryn Padarn eu hunain yn teimlo a fydd o fantais i'r ardal. Yn hyn o beth bydd canlyniadau yr Holiadur pan fyddant yn cael eu cyhoeddi yn ffon fesur hynod o effeithiol a defnyddiol. Y gobaith yw y bydd Antur Padarn mewn ymgynghoriad llawn â'r Cynghorau Cymuned lleol mewn sefyllfa, erbyn diwedd y flwyddyn, i gyflwyno cynlluniau i'r Awdurdod Datblygu ar gyfer eu cyllido a gweithredu arnynt y flwyddyn nesaf.

Yn yr un cyfarfod cytunwyd i symud ymlaen i geisio sicrhau Swyddog Datblygu i'r Antur. Y bwriad yn awr yw gohebu â Chyngor Dosbarth Arfon ar gyfer

derbyn eu cefnogaeth i lunio cais o dan Gynllun Cymorth Trefol tuag at gyllido swydd o'r fath. Hefyd cytunwyd i drefnu dirprwyaeth i gyfarfod â Swyddog Personel Cwmni Euro/DPC gan fod pryder o hyd yn lleol y gallasai nifer o'r swyddi fydd yn cael eu creu gan y Cwmni fynd i bobl o'r tu allan i'r Dyffryn. Gobeithir cynnwys yr Aelod Seneddol a chynrychiolwyr o'r byd addsyg ac Undeb Llafur yn y trafodaethau hyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur yn **Neiniolen ar nos Fercher, Gorffennaf 3ydd am 7.00 yn y Ganolfan Gymdeithasol leol** (rhan o Ysgol Gwaun Gynfi). Yn ychwanegol i'r mynychwyr arferol bydd croeso cynnes i bobl Deiniolen a'r cylch daro i mewn i'r cyfarfod.

Wythnos Daeareg Cymru, Gorffennaf 4 - 14

Cynlluniwyd Wythnos Daeareg Cymru gan yr Amgueddfa Genedlaethol fel digwyddiad addysgiadol ac adloniadol ar gyfer plant ysgol, y cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal â grwpiau a chyrff gwyddonol. Trefnwyd darlithoedd, teithiau, diwrnodau agored ac yn y blaen trwy Gymru benbaladr. Dyma rai o'r digwyddiadau a gynhelir o fewn cyrraedd cyfleus i'r fro hon:

Dydd Iau, Gorff. 4: Darlith ar Ddaeareg Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor am 7.30.

Dydd Sadwrn, Gorff. 6: Daeareg Mwynau Copr Sugun a Beddgelert (Manylion, Bangor 351151).

Dydd Sul, Gorff. 7: Taith Ddaearegol i gopa'r Wyddfa. Cychwyn o faes parcio Nant Peris am 11 o'r gloch.

Dydd Llun, Gorff. 8: Darlith ar Hanes Mwyngloddio yng

ngogledd Cymru. 7.30 pm, Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis.

Dydd Gwener, Gorff. 12: Darlith ar Ddaeareg a Thirlun gogledd Cymru yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis am 7.30 pm.

Dydd Sadwrn, Gorff. 13: Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis eto. Rhyw fath o 'Sioe Craig a Ffossil' rhwng 11 am a 4 pm. Dewch â'ch enghreifftiau i gael eu hadnabod.



Cyfarfod Cyffredinol Yr Eco

O blith dros 2000 o bobl sy'n darllen Eco'r Wyddfa bob mis, dim ond pump a fentrodd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn y Sefydliad Coffa, Llanrug nos Iau, Mehefin 6.

Yn bresennol roedd Nant Roberts, Goronwy Hughes, Gwyndaf Hughes, Dafydd Whiteside Thomas a Twrog Jones — bob un ohonynt yn swyddog sy'n cydweithio'n glòs bob mis i sicrhau fod y papur yn cael ei baratoi. Nid oedd yn bosib felly cael adroddiadau ar holl agweddau'r papur ac nid oedd fawr ddim o'r hyn a drafodwyd yn newydd i glustiau'r pump oedd yn bresennol.

Derbyniwyd y daflen gyfrifon am 1990-91. O dan yr amgylchiadau penderfynodd y swyddogion barhau yn eu swyddi am ryw hyd eto.

Trafodwyd yn faith un mater pwysig iawn. Cewch y manylion yn rhifyn Medi o'r Eco.

CYFRIFON 'ECO'R WYDDFA' 1990-1991

1990 £	DERBYNIADAU	1991 £
4159.68	Gwerthiant	4960.26
6492.75	Hysbysebion	6150.25
457.49	Rhoddion	552.00
887.45	Grantiau—Cymdeithas Gelfyddydau	918.94
	Grantiau—Cynghorau Cymuned:	
25.00	Llanberis	25.00
100.00	Llanddeiniolen	200.00
250.00	Llanrug	300.00
60.00	Waunfawr	30.00
		555.00
200.96	Llog	171.07
175.00	Incwm arall	278.75
12808.33		13586.27

TALIADAU		
12521.74	Argraffu	13439.36
151.99	Ffotograffiaeth	46.11
215.36	Stampiau	234.79
15.25	Costau eraill	65.59
12904.61		13785.85
96.28	Gwariant yn fwy nag incwm (Colled)	199.58
4644.92	Cronfa'r Eco — 1af Ebrill	4548.64
96.28	Colled am y flwyddyn	199.58
4548.64	Cronfa'r Eco Mawrth 31ain	4349.06

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco. £10. Er cof am y ddiweddar Eirwen B Jones, 8 Bro Deiniol, Deiniolen. Pam, Llys Myfyr, Deiniolen. £5 Mrs C. Jones-Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug; Miss Nancy Griffith, Tan Rallt, Waunfawr; Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Teulu 16 Bro Rhiwen, Rhiwlas; Mr Evan Jones a'r Teulu, 3


Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs M. Hughes, 9 Rhes Faenol, Llanberis. £3 Teulu Rhadir mwyn, Waunfawr; Mairwen Bayliss, Anfield, 4 Coed y Ddôl, Llanberis; Miss Doris Williams, 16 Rhos Rug, Llanrug. £2 Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Sharon Williams, 2 Rhydfadog, Deiniolen; Teulu Hafle, Rhes Faenol, Deiniolen; Mrs Ellen Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs Cecil Williams, 19 Hafan Elan, Llanrug.

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

Cydymdeimlo: Brawychwyd yr ardal ddydd Sadwrn Mehefin 8 wrth glywed am y ddamwain angheuol i Amanda Lingard, gynt o 19 Bro Rhos. Bu farw Amanda yn ferch ifanc 18 oed mewn damwain car yn Stratford upon Avon nos Wener Mehefin 7. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo: Nos Lun Mai 27 bu farw Mrs Vise, Cartref. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Marw Gofalwr: Dydd Iau, Mai 30 yn Ysbyty Bryn Seiont ar ôl gwaeldd hir bu farw Mr Les Christison, Tŷ Capel Cysegr. Bu Mr Christison yn ofalwr Y Cysegr am gyfnod o 28 mlynedd. Fe welir colli ei wasanaeth ffyddlon i'r eglwys am yr holl flynyddoedd. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch: Dymuna Mr Gwynfor Jones a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli priod annwyl.

Ysgol Feithrin: Daeth storiwr arbennig o Slot Meithrin S4C i ddiddanu'r plant bawn Mawrth, Mehefin 10, ynghyd â chamerau teledu. Canodd y plant gân hefyd a dangosir y digwyddiad hwnnw yn ystod yr wythnosau nesaf ar Slot Meithrin a theledir y stori yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Urdd: Cafodd pawb a aeth i lawr i'r Eisteddfod yn Nhaf Elái, yn ddawnsuwr ac yn gefnogwyr, amser difyr iawn, er gwaetha'r ffaith i'r bws dorri i lawr yn Llanellwedd.

Bu'r Grŵp Dawnsio Disgo dan 12 oed yn llwyddiannus i gael yr ail wobwr, a mawr yw diolch y Pwyllgor lleol i Miriam Thomas am eu hyfforddi.

Cymdeithas Genedlaethol y Deillion: Yn ystod yr wythnos yn diweddu 15 Mehefin 1991 cynhaliwyd casgliad o ddrws i ddrws at y Deillion. Y casglwyr oedd Mrs Falmali Ll. Owen, 2 Fron Helyg, Mrs Elizabeth Williams, 16 Tan y Buarth, Mrs Mair Jones a Myfanwy Jones, Glan y Gors. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £113.63. Carai'r trefnydd, Mrs Olwen Meredydd Jones, Y Felinheli ddiolch i bawb a gyfrannodd a diolch yn fawr iawn i'r rhai fu'n casglu o dŷ i dŷ.

Enillwyr Clwb 200 Mai: Mrs Eleri Warrington, Wern Bach, Bethel (£20); Mr Hefin Jones, 7 Stad Eryri, Bethel (£10); Mrs Phyllis Owen, 18

Cremllyn, Bethel (£5); Mr Iolo Morgan, 7 Tan y Cae, Bethel (£5); Mr Richard Ll. Jones, 5 Tan y Cae, Bethel (£5); Mrs Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, Bethel (£5); Mrs Margaret Williams, Cefn Isaf, Bethel (£5); Mr Dennis Harrison, Bahkita, Bethel (£5).

Llongyfarchiadau: Llongyfarchiadau i Peter Sharpre, BSc, Ael y Bryn, ar ei llwyddiant yn ei arholiadau terfynol yn Feddyg yng Ngholeg Meddygol St. Bartholomews, Llundain. Cafodd hefyd Wobr Y Flwyddyn Olaf mewn Llawfeddygaeth. Bydd yn dechrau ar ei yrfa yn Ysbyty Whipps Cross, Llundain ar 1 Awst. Mae Peter yn gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Bethel ac Ysgol Brynrefail lle'r oedd yn Brif Ddisgybl yn 1984/85.



Ysgol Bethel: Bu Meilyr Emrys sy'n ddisgybl yn Ysgol Bethel yn llwyddiannus iawn yn cael ei ddewis i actio yng nghynhyrchiad Ffilmiau Eryri o lyfr Kate Roberts *Traed Mewn Cyffion*. Mae'r rhaglen yn cael ei ffilmio ar hyn o bryd yn ardal Rhosgadfan a bydd yn cael ei dangos ar y teledu cyn y Nadolig.

Llongyfarchiadau i Mr Ian Pierce, Llanrug ar ei benodiad yn brifathro yr ysgol. Bydd Mr Pierce sydd ar hyn o bryd yn brifathro Ysgol Beddgelert yn dechrau ym Methel ym mis Medi.

Bydd teyrnged i Mr Islwyn Jones ar ei ymddediad wedi 25 mlynedd o wasanaeth fel prifathro'r ysgol yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr Eco.

Merched y Wawr: Nos Fercher, Mehefin 12 cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor. Trefnodd y swyddogion noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd yn

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Dymuniadau Da: Dymunwn bob llwyddiant i blant y pentref yn eu arholiadau y tymor hwn.

Cydymdeimlo: Hoffem gydymdeimlo â Mr Cecil Williams a'r teulu, gynt o Bodiety, ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Enid Lewis. Yn Lerpwl y treuliodd Mrs Lewis ran helaeth o'i bywyd, ond roedd yr ardal yma yn agos iawn at ei chalon, ac yn eiddgar yn derbynai yr 'Eco' yn rheolaidd. Ei dymuniad oedd cael gwasgaru ei llwch ym Mhenbwllch a gwiredddwyd hynny yn dilyn gwasanaeth yng Nghapel Tabernacl. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, gyda Mr Llew Hughes, Mr Len Parry a Mr Hywel Morris yn cynrychioli'r capel.

Yr Ysgol Gymuned: Tydy'r Gaeaf 'ma'n hir cyn ein gadael hi 'dwch?

Ers i ni weld ein gilydd y tro diwethaf bu Dosbarth y Babanod yn ymweld â'r Piggery Pottery. Cafodd pawb amser da a chyfle i wneud potyn — i ddal blodyn neu ryw beth fynont. Diolch am gymorth gan y rhieni i hwyluso'r trefniant cludo.

Bu plant yr Adran Iau yn cystadlu yn y Gala Nofio. Er i sawl un fod yn gyntaf yn eu rاسus, nid oedd eu hamser ddigon cyflym ac felly dim

ond Kevin Williams gafodd dystysgrif. Da iawn Kevlin a phawb arall; yn arbennig y rhieni aeth efo'r plant — sef Mrs Williams, Mrs Price a Mr Morris.

Erbyn hyn mae Nia a Gwenan wedi mynd yn ôl i'r ysgol i wynebu arholiadau. Gobeithio i'r ddwy fwynhau eu hunain ac y cofiant am eu profiadau amrywiol tra buont yma! Diolch i chi'ch dwy am eich cyfraniad.

Cafodd Sarah Wager dridiau buddiol iawn yn Llwyngwrl ar gwrs cerddoriaeth. Diolch i Mrs Barnes am fynd a hi a dod a hi yn ôl yn saff.

Fore Sadwrn, 8 o Fehefin, bu'r Adran Iau yn gweld a chymryd rhan yn y rhaglen deledu 'Slot Sadwrn'. Ella i chi eu gweld ar y bocs yn holi Bryn Fôn. Bore bendigedig i bawb a neb o Cwm yn mynd i'r 'slwj' yn y bocs. Diolch byth!

Hoffai plant Safon 4 ddiolch i Ysgol Brynrefail am eu derbyn am y diwrnod. Maent yn gwybod eu ffordd o gwmpas yn iawn rwan ac yn edrych ymlaen at fynd yno ym mis Medi.

Daeth Mrs Parry'r Nyrs i gael sgwrs efo rhai o'r plant. Edrychwn ymlaen at ei gweld eto yn gorffen ei sgwrs efo'r gweddill o'r plant.

Llongyfarchiadau i Glyn Price ar gael marciau uchel iawn mewn Arholiad Karate ac i Matthew Barnicott am gael medal mewn ras beic mynydd.

Mae'r frech ieir yn dal i'n poeni ond dim rhy ddrwg, diolch byth.

Cofiwch, am ein Sêl Cist Car ar 6ed o Orffennaf. Dewch i chwilio am fargen rhwng 11 a 4 o'r gloch. Cost y car neu fwrdd fydd 3. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

Am y tro, hwyl a gweddïwch am haul.

SÊL CIST CAR

Ar fuarth
Ysgol Gymuned Cwm y Glo
i'w chynnal
ar ddydd Sadwrn,
Gorffennaf 6ed, 1991
rhwng 11 a 4 o'r gloch
Cost car neu fwrdd: £3
Raffl. Diod ysgafn.
Cŵn poeth
Dan dô os yn bwrw
Croeso i bawb i brynu a gwerthu

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG
671009

Bistro
43-45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn 871278



**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Eisteddfod: Eleni, cynhelir Eisteddfod Llanrug ar nos Wener, 11 o Hydref. Ystyriaethau ariannol sy'n bennaf gyfrifol am y newid o ddydd Sadwrn yn ogystal a'r lleihad mewn nifer cystadleuwyr dros y blynyddoedd. Bydd rhaglen yr Eisteddfod allan tua canol mis Gorffennaf a gallwch weld ynddi ein bod wedi diddymu ambell gystadleuaeth ac wedi cyd-reddeg rhai eraill i geisio arbed amser ar y noson.

Un newid arall yw bod cyfeiriad newydd gennym — felly bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr yn y cystadlaethau hunan-ddewisiad ofalu rhoi eu cerddoriaeth i'r Ysgrifennydd bythefnos cyn yr Eisteddfod. Rydym yn cymryd y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i Megan Roberts a Mair Huws am gyfeilio mor ardderchog i'r cystadleuwyr dros y blynyddoedd, a hefyd i Gareth Roberts am ei waith diflino fel Trysorydd. Wyn Davies yw'r trysorydd newydd a dymunwn bob hwyl iddo yn y swydd.

Bedydd: Nos Sul, 2il o Fehefin, gyda'r Parch John Morris BD yn gweinyddu, bu sacrament o fedydd pryd y bedyddiwyd William Ronald John, plentyn Susan Humphreys a Mathew, 27 Bro Rhyddallt.

Adferiad iechyd: Anfonwn ein cofion, gan ddymunio adferiad iechyd i Mr Owen Owens, 22 Bro Rhyddallt, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Merched y Wawr: Aeth cynifer dda o aelodau'r gangen a ffrindiau ar daith ddigol i gloi'r tymor nos Fawrth, Mehefin 1.

Cafwyd noson ddifur ar waethaf y niwl a'r glaw mân ar y cychwyn. Aethpwyd i Ynys Môn i ymweld â Melin Llynnon, ger Llanddeusant. Melin yn dyddio yn ôl i 1775 ond sydd wedi ei hadnewyddu i gynhyrchu bawd, a chafwyd disgrifiad manwl o'r broses gan y melinydd. Yn dilyn, cafwyd gwledd flasus o fwyd cartref yn y bwyty sy'n gysylltiedig â'r Felin.

Yn dilyn diolchodd y llywydd, Mary Roberts, i'r ysgrifenyddes, Heulwen Evans, y trysorydd Olwen Huws a'i chyd-bwyllgor am eu cydweithrediad yn ystod y tymor, a dymuno'n dda i'r swyddogion newydd. Diolchodd Phyllis Ellis i'r llywydd am ei gwaith hithau.

Cydymdeimlwyd â Mrs Gwenda Roberts ar golli ei thad, a dymunwyd yn dda i Mrs Williams, Bod Fair a Mrs Ceinwen Roberts. Dewiswyd Mair Huws ac Olwen Huws ar yr Is-bwyllgor Chwaraeon.

Diolchodd Beryl Thomas i bawb a gyfrannodd i stondin yr Anabl yn Rali'r Ffermwyr Ieuaic.

Enillydd y raffl oedd Beryl Thomas **Llongyfarchiadau** i blant Ysgol Sul Eglwys Sant Mihangel ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgrifenedig a llafar a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant, Bangor ar Fai 10. **Ysgol Feithrin:** Diolch yn fawr i Mathew, Manon a Catrin am y cardiau post a yrrwyd inni pan aethant ar eu gwyliau. Diolch hefyd i Amy am y siocled ar ôl iddi hithau fod ar ei gwyliau.

Cafwyd prynhawn llwyddiannus iawn bawn Mercher, Mehefin 19. Diolchir i bawb a gyfrannodd.

Noson Goffi: Cynhelir Noson Goffi yng Nghanolfan Hafan Elan nos Iau, Gorffennaf 11 am 7 o'r gloch. Bydd

yno fwrdd gwerthu a derbynir rhoddion gyda diolch ac fe dynnir y raffl sydd yn awr ar werth. Bydd yr elw at Eglwys St Mihangel a St Gabriel.

Diolch: Dymuna Dilys ac Arthur Jones, 18 Hafan Elan ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, Mrs Annie Williams, gynt o Buarth y Berran, Deiniolen. Diolch yn arbennig i staff 'Y Foelas' am eu gofal diflino tra roedd yn ymgartrefu â hwy.

Diolch hefyd am y rhoddion er cof, bydd yr arian — swm o 200 — yn cael eu trosglwyddo i gronfa 'Hospis yn y Cartref'.

Llongyfarchiadau: i Gwawr Owen, Rhoslan, Llanrug ar gael ei gradd ar gyfer y teledu yn y Coleg Normal, Bangor.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau: i David Roberts, 12 Nant y Glyn oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Fehefin 23. Cafwyd dathliad gartref efo teulu a ffrindiau.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Cecil Williams, 19 Hafan Elan, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur marwolaeth chwaer Cecil yn Lerpwl, sef Mrs Enid Lewis, gynt o Bod Iestyn, Cwm y Glo. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i'r gwsanaeth yng Nghapel Tabernacl, Cwm y Glo ar Fehefin 10 ac i'r Parch Gwynfor Williams, y gweinidog, am ei eiriau caredig. Gwasgarwyd ei llwch, yn ôl ei dymuniad, ym Mhen y Bwlch **Cronfa McMillan:** Dymuna Mr Paul Kelly ddiolch i'r canlynol am gasglu o dŷ i dŷ yn ardal Llanrug tuag at Gronfa McMillan: Mrs Cynthia Owen — 17.62; Mrs Meirwen Lloyd — 24.63; Mrs Jane Jones — 33.93; Mrs Carys Parry — 20.07; Mrs Sheila Williams — 27.11; Mr Cecil Williams — 10.75; Mrs Maureen Williams — 9.50; Mrs Vera Williams — 23.67. Y cyfanswm oedd 167.28.

Cyfarfod y Chwiriwyd: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiriwyd yn Festri Pontrhythallt pnawn Iau, Mehefin 20. Dechreuwyd y gwsanaeth gan Mrs Griffith, Fron Hyfryd a'r llywydd oedd Mrs J Williams, Bod Ficer. Cafwyd sgwrs ar Hen Hanes a Dywediadau gan Mrs E W Thomas, Dolwar a diolchwyd iddi gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs J Williams, Bod Fair. Bydd y cyfarfod nesaf, Gorffennaf 18 am 2 o'r gloch. **Plaid Cymru:** Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol cangen Llanrug a'r Cylich nos Fercher, Mehefin 19 yn y Sefydliad Coffa gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Penderfynwyd ail ethol y swyddogion am y flwyddyn nesaf, a hefyd ethol Mrs Delyth Tomos i'r pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r aelodau am eu gweithgarwch a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn fuan i drefnu rhaglen y flwyddyn 1991-92. Rhai gweithgareddau a drefnir fydd Ffair Nadolig gydag ymweliad gan Siôn Corn yn nechrau Rhagfyr. Daw Cwmni Bara Cwaws i berfformio 'Y Gweledigaethau' i neuadd Ysgol

YSGOL GYNRADD LLANRUG

Ymweliadau: Bu nifer o ddosbarthiadau ar ymweliadau eto y mis yma.

Nant Gwrtheyrn: Profiad hynod ddiddan fu ymweld â Nant Gwrtheyrn i blant Safon 2, fel rhan o thema'r tymor. Croesawyd hwy i Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog Fawr ar y ffordd gan y rheithor, y Parch Idris Thomas. Yn y Nant, cafwyd hanesion difyr am y lle gan yr hanesydd o Lithfaen, Ioan Mai. Mwynhawyd ffilm o'r chwedl Priodas Rhys a Meinir, a gwaith dylunio yng nghwmni Iola Jones, Swyddog Marchnata'r Ganolfan Iait. Cafodd yr achlysur argraff ar y plant trwy ddod â chynnwys y thema yn fyw iddynt.

Trên Bach Llanberis: Diwrnod hynod ddifur a gafodd Babanod Derbyn yn ddiweddar. Wedi ymuno â nifer o blant y cylch am drip ar drên llyn Llanberis aethant ymlaen am bicnic ar y Foryd a mwynhau eu hunain yn y cae chwarae.

Fferm a Teledu: Aeth Safon 3 i ddiwrnod agored yng Nglynllifon. Cawsant gyfle i weld y fferm a cherdded drwy'r goedwig. Bu nifer o'r dosbarth yma yn cymryd rhan amlwg yn ddiweddar ar y rhaglen deledu, Slot Sadwrn.

Paratoi am dripiu mae rhai dosbarthiadau, gyda Safon 1 yn cael mynd draw i weld carchar Biwmares a Babanod Canol a Derbyn yn ymweld â Henblas, Llangristiolus.

Ymweliwyr: Cawsom gyfle i groesawu myfyrwyr o goleg busnes ar Ynys Skye y mis diwethaf. Y coleg yma yw'r unig goleg sydd yn cynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gaeleg. Roedd yn ddifur gwrando ar y myfyrwyr yn cyd-siarad yn eu hiaith a diddorol oedd sylwi ar y tebygrwydd sydd rhwng y Gaeleg a'r Gymraeg.

Cwmni'r Frân Wen: Cafodd Safon 1 a 2 gyfle i weld perfformiad gan Gwmni'r Frân Wen, 'Trwy Gicio a Brathu'. Roedd yn berfformiad canmoladwy a bu rhai o'r plant yn adrodd eu hargraffiadau ar y rhaglen 'Digwydd' ar Radio Cymru.

Ffarwelio: Mae diwedd y tymor a blwyddyn ysgol arall yn brysur agosau. Gyda golygon pawb ar wyliau mae'r amser wedi dod i

ffarwelio â nifer o'r ysgol.

Mae Safon 4 eisoes wedi cael cyfle i ymweld ag Ysgol Brynrefail. Hoffem ddiolch am y croeso ac maent yn edrych ymlaen at ddechrau eu gyrfa yno ym mis Medi. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant i bob un ohonynt.

Mae Mrs Mary Morris yn ymadael ar ôl 5 mlynedd yn ein cwmni. Bu'n dysgu ystod eang o blant yn Llanrug. Diolch i chi am eich cwmni a'ch cyfraniad i fywyd yr ysgol Mrs Morris a phob dymuniad da yn eich ysgol newydd.

Bydd Mrs Mair Parry hefyd yn ein gadael ar ôl cyfnod yng nghwmni Safon 3. Diolch i chwithau hefyd am eich parodrwydd a'ch cyfeillgarwch. Croesawn yn ôl atom Miss Amranwen Lynch wedi cyfnod adref. Mae Lois eisoes wedi bod am dro i'n gweld i gyd.

Rydym hefyd yn ffarwelio dros dro â Mrs Anwen Owen. Mae wedi sicrhau seconddiad am flwyddyn i edrych ar Ddarpariaeth i Blant dan 5 oed. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

A ffarwelio rydym hefyd â Mr Dafydd Idriswyn Roberts. Wrth ei longyfarch ar gael ei benodi'n bennaeth Ysgol Gynradd Llanfairpwll rydym yn gwerthfawrogi ac yn diolch iddo am y cyfan mae wedi ei gyflawni yma yn Llanrug. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd. Wrth gwrs, mae cyfarchiad arall yn ddyledus i Idriswyn a Glenys ar enedigaeth merch, Manon Dafydd, chwaer fach i Iestyn. Ein dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Cofiwch am y barbeciw diwedd y tymor ar gae'r ysgol a gwyliau dedwydd a diogel i bawb.

Ysgol Gynradd

Llanrug

Cymdeithas

Ffrindiau'r Ysgol

MIRI HAF

Nos Wener

Gorffennaf 12fed

Cae'r Ysgol

Barbeciw

Castell Neidio

Stondinau



I DDYSGU
DREIFIO EFO
STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug

Ffôn: Caernarfon

76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr



Plasnt yr Ysgol Feithrin a noddwyd i ddysgu hwiangerddi.

Cylch Meithrin a Ti a Fi: Nos Wener, Mehefin 7, mentrodd rhai o'r mamau a chyfeillion yr ysgol feithrin ar daith gerdded nodedig o amgylch y fro, gan orffen gyda phryd o fwyd blasus yn Bryn Eirian, Waunfawr. Er gwaetha'r tywydd gwael gafwyd yn ddiweddar, llwyddodd i fod yn braf ar y noson.

Noddwyd plant yr ysgol feithrin gan rai o fudiadau a busnesau'r pentref, yn eu tasg o ddysgu deg o hwiangerddi. Bore Mercher, Mehefin 19, gwahoddwyd cynrychiolydd o'r noddwyr i fore agored yn y Ganolfan i gael paned a gwrando ar y plant yn canu'r hwiangerddi. Trefnwyd y gweithgareddau i gyd-redeg gyda'r wythnos Wyl Feithrin Genedlaethol, a bydd hanner yr arian a gasglwyd yn

mynd i hyrwyddo addysg feithrin yn Lesotho. Fe fydd cylch Waunfawr yn cael cadw'r gweddill.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a'u cefnogodd ar y ddau achlysur.

I gloi'r Wyl Feithrin eleni, roedd rhanbarth Arfon o'r Mudiad wedi trefnu pnawn llawn hwyl ar gaeau Ysgol Treborth dydd Sadwrn, Mehefin 22. Bu rhai o aelodau'r pwyllgor yn gyfrifol am gynnal stondin gacennau ar y cae. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Pob hwyl i holl blant bach yr ysgol feithrin ar ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol gynradd ym mis Medi, a chroeso i'r plant fydd yn mynychu'r ysgol feithrin am y tro cyntaf ym Medi. Fe fydd tymor yr Hydref yn dechrau 3 Medi, 91.

Ysgol Feithrin: Fe fydd trip y Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi, Waunfawr yn ymweld â Phlas Bodfel, Boduan, Pwllheli dydd Iau, 11 Gorffennaf. Mynediad a bws 2 i oedolion, plant am ddim. Enwau i Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon cyn 4 Mehefin. Croeso i ffrindiau a phlant fydd yn mynychu'r Ysgol Feithrin yn y dyfodol.

CLWB 300: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: 40: Gary Davies, 1 Gallt y Bont; 25: Dr Huw Roberts, Hafodty, Rhosbodrual; 10: Mrs M B Davies, Bryn Eithin.

Y Gymdeithas Lenyddol: Pnawn a nos Fawrth, Mehefin 11 aeth nifer dda o aelodau'r Gymdeithas Lenyddol ar daith i wlad Llŷn. Roedd y tywydd yn hynod o anffafriol ond serch hynny y farn gyffredinol oedd i bawb fwynhau eu hunain gan i dywydd gwell ddod ar derfyn y daith. Mwynhawyd pryd o fwyd ym Morfa Nefyn ble talwyd y diolchiadau gan R Gwynn Davies a T Arfon Williams, Caeathro — y ddau hefyd wedi cyfansoddi englynion i ddiolch i'r tywysydd, Dyfed Evans, Pencaenewydd. Edrychir ymlaen i'r tymor newydd sydd yn cychwyn nos Lun, Hydref 28, pan ddisgwylir darlith hwyliog gan y Parchedig W R Williams, Y Felinheli. Cyhoeddwyd fod cynnydd yn y costau wedi gorfodi'r trefnyddion i godi'r tâl aelodaeth y tymor nesaf i 2, a chytunodd yr aelodau â hynny.

Cronfa MacMillan: Dymuna Mr Paul Kelly, Llywydd, a holl aelodau'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu help gyda'r casgliad yma. Mrs Cathreine A Jones, Bryn Gwenallt (Trefnydd) —

30.67; Mrs Ellen Jones, Eryri Wen — 21.98; Mrs Katie M Jones,

Gorwel — 19.11; Miss Marian Wyn Jones, 12 Dol Erddi a Mrs Olwen Owen, Tref Eilian — 18.89; Mrs Margaret Jones, Graianfryn — 32.00; Mrs Veronica Owen, Cil y Mynydd — 27.46; Mrs Pearl Williams Parc a Snowdonia Park Hotel — 11.34. Cyfanswm o 161.45.

Dymuna Mrs Catherine A Jones (Trefnydd y casgliad yn yr ardal) ddiolch yn bersonol i bawb am eu parodrwydd i'w chynorthwyo gyda'r casgliad o dŷ i dŷ fel arfer, ac hefyd i'r ardalwyr am gyfrannu mor hael tuag at yr achos teilwng yma.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs S Williams, Bro Waun a Mrs J Price, Tref Eilian. Mae'r ddwy yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croesawn Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd ac Owain, mab bychan Keith a Mandy Williams, Ael-y-bryn adref ar ôl iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty ym Mangor.

Anfonwn ein cofion at drigolion y pentref sydd, dros dro, yn aros mewn cartref preswyl.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs Parry-Williams, Gwynfa yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer; at Mrs Helen Jones, Dol Erddi, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Ne Cymru;

at Mr Hugh Williams, Glaslyn, Croes-y-waun, sydd hefyd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar; ac at Mr Taylor, Mair, Len, Catherine ac Aled, Baladeulyn yn eu profedigaeth o golli priod a mam dyner.

Diwedd mis Awst y daw'r Eco o'r wasg nesaf. Dymunwn wyliau hapus, difyr a diogel i chi i gyd.

Merched y Wawr: Cadeiriodd Mrs Mary Vaughan Jones Seiat Holi nos Iau, Mai 30 yn y Ganolfan yng nghwmni Ann Parry-Jones, Dafydd Owen a Twm Tomos. Cafwyd amrywiaeth o gwestiynau treiddgar, ac atebion dwys a difyr oddi wrth y panel. Diolchwyd i'r panelwyr gan Gill Brown am eu parodrwydd a'u gonestrwydd. Gofalodd Joy Glyn a Gill Brown am y te a Cadi Jones enillodd y raffl a roddwyd gan Carys Owen. Diolchwyd hefyd i Glenys Williams am y teisennau.

Gwibdaith i Blas Tan y Bwlch yw gweithgaredd olaf y tymor. Gofynnir i bawb ymgynnull wrth y Post am 7 yr hwyr, nos Iau, Mehefin 27. Pris y noson, gan gynnwys bwyd yw 8. Estynnir croeso i ffrindiau. Dewch a'ch enwau i Llinos Cadwaladr neu Joy Glyn erbyn 20 Mehefin os gwelwch yn dda.

Plaid Cymru: Taith Gerdded i Ynys Llanddwyn. Bu criw hwyliog a heini o aelodau'r Plaid a'u ffrindiau yn ymweld â Gwarchodfa Natur Ynys Llanddwyn a Thywyn Niwbwrch, dydd Sadwrn, 25 Mai. Wrth wneud ein ffordd ar hyd y traeth, arafodd sawl aelod ifanc er mwyn tynnu 'sgidia a mwynhau cerdded yn droednoeth ar y tywod braf. Tynnwyd ein sylw yng nghyffiniau Gwddw Llanddwyn at hen ffynnon a chreigiau hynafol a chawsom hanes y Santes Dwynwen a defod y cariadon.

Roedd y blodau gwyllt, megis pig yr aran, seren y gwanwyn a'r glustog Fair yn eu gogoniant. Cawsom hanes pellach yr ardal yn yr arddangosfa fechan yn hen fythynnod y peilotiaid, ac yno hefyd roedd ystafell wedi ei dodrefnu gan gymdeithas leol yn null cartref o'r ganrif ddiwethaf. Erbyn hynny roedd pawb yn barod am banded a chawsom hoe fach ar y traeth gerllaw.

Tra'n ymlacio yn yr haul cafodd rhai aelodau gyfle i ymdrochi, gydag ambell i un hŷn yn mentro dim ond at ei ben-gliniau, ond y pethau ifanc yn ddi-wahan yn falch o esgus i wlychu at eu crwyn. Bu'n rhaid o'r diwedd ffarwelio â'r ynys a throi am adref — ein pocedi'n llawn tywod ac ambell hosan wleib.


Dathlu Pen-blwydd: Yn ystod mis Mehefin dathlodd Mrs E C Williams, Dwyfor ei phen-blwydd yn 93 oed, a Miss Katie Roberts, Tref Eilian hithau ei phen-blwydd yn 80 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddwy ohonoch.

Hefyd bu chwech o'n pobl ifanc yn dathlu cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau i Shoned Roberts, Pant Afon; Becca Brown,

Gwelfor; Sharon Lewis, Tref Eilian; Gareth Rhys Jones, Llwyn Afon; Telor Iwan, Pen-y-berth a Dylan Jones, Rhandir Mwyn. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched, Grŵp Gwryfai: Cafwyd arddangosfa ardderchog o wahanol grefftiau yn y Ganolfan nos Wener, Mehefin 14 gan y grŵp yma. Pleser oedd gweld Mrs Peggy Jones, Fferm Glynafon a Mrs Pat Parry, Ffridd Felan yn arddangos peth o'u gwaith cywrair ac yn rhoi arddangosiad o 'Hardanger' a 'Machine Knitting'.

Ysgol Sul Croesywaun: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr arholiad sirol yn ddiweddar: **Dan 11 oed:** Lowri Glyn, Heledd Elfryn, Gareth Cadwaladr, Sian Jones. **Dan 14:** Bethan Cadwaladr, Gwenno Owen, Llŷr Jones. **Dan 18:** Hefina Wyn Jones.



Yr Urdd: Llongyfarchiadau i Elin Gwilym, Llidiart Wen ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus 15-19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf Elai ym mis Mai. Pob hwyl i'r plant fydd yn cynrychioli adran y pentref ym Mabolgampau Sir yr Urdd ar Orffennaf 8fed ac i'r 13 aelod a Gwenan fydd yn mynd am wythnos i Langrannog.

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan, Waunfawr am 8 o'r gloch, Gorffennaf 2il i drafod rhaglen 1991/92.

Llongyfarchiadau i Wendy Ann, Llwyn Afon, ar ei phriodas â Peter Wilde o Fanceinion. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Diolch: Dymuna Gareth Rhys, Llwyn Afon, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ato ar dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Diolch: Dymuna Shoned, Pant Afon ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am bob dymuniad da a dderbyniodd ar gyrraedd ei deunaw oed.

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN GARDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn:Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod



Yn ystod wythnos y Sulgwyn bu disgyblion y chweched isaf ar brofiad gwaith mewn nifer o fannau gweithio amrywiol yn yr ardal. Dyma rywfaint o brofiad rhai ohonynt:

Treuliais fy mhrofiad gwaith yn Ysgol Gynradd Llanrug, gyda'r babanod canol.

Roedd fy nhasgau yn amrywiol a diddorol, e.e. helpu allan yn y gegin amser cinio gyda'r plant; gwneud holiaduron ar ddefnyddiau'r ysgol, ac wrth gwrs helpu'r plant gyda'u gwaith llaw. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn. Roedd pawb yn ddymunol ac yn barod i'm helpu bob tro.

Awen Williams 6 1

Cefais wythnos fuddiol iawn yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo gyda'r babanod a'u hathrawes Mrs Williams. Roeddwn wedi bod yn mynd yno bob dydd Mercher ar fy ngwaith cymunedol, felly gwyddwn y math o bethau a oedd o'm blaen.

Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd cael y fraint o ddysgu Ffrangeg i'r plant. Roedd yn Ewropeaidd iawn yno wedyn! Cadarnhaodd fy mhrofiad gwaith fy mwriad i barhau mewn addysg bellach.

Nia Hughes 6 1

Treuliais fy wythnos o brofiad gwaith mewn swyddfa Cyfreithiwr yng Nghaernarfon. Am y rhan fwyaf o'r wythnos roeddwn yn gwrando ar wahanol achosion yn y llysoedd. Bûm yn Llys yr Ynadon, y Llys Sirol a Llys y Goron. Darllenais nifer o ffeiliau achosion yn cynnwys llofruddiaeth. Mwynheais fy hun trwy gydol yr wythnos. Roedd yn brofiad diddorol ac roedd pawb yn gyfeillgar.

Bryn Jones 6 1

Dyma rai o'r mannau eraill lle bu'r chweched ar eu profiad gwaith: Adran Gyfieithu'r Cyngor Sir; Canolfan Awyr Agored Llanberis; Ysbyty Gwynedd; Ysgol Pendalar; Banciau.

Newyddion o'r Ysgol

Yr Ysgolion Cynradd: Ar hyn o bryd mae nifer o ddisgyblion Safon 4 yr ardal yn ymweld ag Ysgol Brynrefail am yr eildro. Erbyn diwedd y tymor bydd pob un o ysgolion cynradd y cylch wedi treulio diwrnod cyfan yma unwaith eto. Mae'n brofiad pwysig i'r plant iau gael gweld yr Ysgol Uwchradd a threulio amser yma er mwyn dod i adnabod eu hysgol newydd yn well cyn dod yma ym mis Medi.

Babi Newydd: Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Ellis Owen ar enedigaeth bachgen bach, Gwion, ar Fehefin 8fed. Anfonwn ein cofion gorau at Rhian, Richard a Llŷr.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Cyngerdd Sgorwyr Uchel: O ganlyniad i fod yn llwyddiannus gydag anrhydedd yn eu Arholiadau Cerddoriaeth yn ddiweddar mae Delyth Ann Price a Llinos Ann Roberts wedi eu dewis i gymryd rhan yng Nghyngerdd Sgorwyr Uchel yr Associated Board. Erbyn cyhoeddi'r Eco bydd y ddwy wedi cymryd rhan yn y cyngerdd a gynhelir ar Fehefin 18 yn Neuadd Powys, Coleg y Brifysgol Bangor. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ar eu llwyddiant.

Yr Adran Gerdd

Llongyfarchiadau i Euros Williams, dosbarth 3 am ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd yn Nhaf Elai yng nghystadlaeth yr Unawd Pres dan 15.

Bydd nifer o blant yr ysgol yn cymryd rhan mewn cwrs offerynnol yn y Coleg Normal, Bangor yn ystod dechrau mis Gorffennaf. Bydd dau gyngerdd ar ddiwedd y cwrs yn Neuadd John Phillips — nos Wener, Gorffennaf 12 am 7 o'r gloch a nos Fawrth, Gorffennaf 16, hefyd am 7 o'r gloch.

Yn ddiweddar bu rhai o ddisgyblion dosbarth un yn brysur yn ysgrifennu cerddi yn sôn am greaduriaid y gwnawyn. Dyma rai ohonynt:

Mr Dear

Gwelais glamp o fynydd pridd
Mewn cae ar ochr y ffridd.
Twrch daear! meddyliais.

Twrch daear yn tyllu
tan mae hi'n tywyllu;
Wedyn mae'n mynd i gysgu.

Y bore wedyn
yng nghanol y rhedyn
bu y twrch daear yn tyllu.
Tydy'r twrch daear
ddim yn stopiol
Tyrchu, tyrchu, tyrchu.

Gethin Jones, Dosbarth 1

Y Creadur Bach Anhysbys

Rhyw dro yn y gwanwyn
Es am dro i'r coed,
Roedd sw'n ofnadwy o ryfedd,
Sw'n rhyfedd wrth ymyl y llyn.

Rhyw sw'n tebyg i grawcian,
Rhyw sw'n na glywais o'r blaen,
Meddyliais am ddechrau mentro
Yn araf at y llyn.

Erbyn hyn roeddwn yn crynu,
Yn crynu gan ofn,
Gallai fod yn anghenfil,
Yn Tyrannosaurus Rex bron.

Yn fy mraw a 'nychryn
Neidiodd creadur bach i'r lan,
Beth oedd o ond llyffant bach,
Llyffant bach llond ei groen.

Huw Tegid Roberts, 11

Y Gog

Rwyf wedi dy glywed, y tro cyntaf ers
blwyddyn gron.

A dy lais yn atseinio'r cwm,
Hen gân fach gyfarwydd yw,
Cwcw, cwcw.

Doi yn ôl i dy nyth o dan ein bondo ni,
Rwy'n falch o dy weld cofia di,
Ar ôl i ti fod mewn gwlad mor bell
Cwcw, cwcw.

Ond 'na'i byth faddau'n llwyr i ti
achos pan ddaw y gaeaf trwm
Fe ei di a'n gadael ni,
Cwcw, cwcw.

Sioned Jones

STORI FER

Rhwng Dau Feddwl

Edrychais i mewn i'r drych. Beth welwn i? Wyneb llonydd a'r croen cyn wyned â llestr proslen. Y gwefusau coch fel aerion yr hydref a'r gwallt melyn tonnog yn eistedd fel coron ar yr ysgwyddau. Ond, y llygaid glas dwfn fel pyllau bas llonydd yn disgleirio dan olau'r lloer.

Fi oedd y ferch brydferth yn y drych? Sara Melangell, actores! Ie, y fi oedd hon. Codais yn hamddenol o'r gadair felfed gan synhwyro'r ffibrau esmwyth yn llithro ar hyd fy nghorff noeth wrth i mi roi'r gŵn coch amdanaf.

Coch! Lliw urddasol ond heb fod yn snobyddlyd. Ychydig yn fflyrtiaid efallai. Coch tywyll fel gwaed yn disgyn fesul diferyn ar y carped gwyn — yn malurio'r perffeithrwydd pur. Yn gysylltiedig â llofrudd a hunan-laddiad. Cyllyll miniog yn torri trwy'r cnawd gwyn i ddatgelu gwaed coch. Ie, hoffwn y darlun. Y lliw fflyrtiaid yn chwalu perffeithrwydd.

Daeth curiad o rywle! Drwm yn taro'n wyllt yn fy mhen i — yn creu eco! Y curo'n mynd yn uwch ac yn uwch. Fy ymennydd i'n dirgrynu'n helbulus — ar glo yn fy mhen! Rhoddais floedd! Sgrechiais nerth fy mhen nes byddau'r sw'n.

'Miss Melangell, be' sy'n bod?'
Daeth llais o rywle, y tu allan i f'ymennydd y tro hwn. Nid fy llais i oedd o! Nid Siwan, ychwaith.
'Miss Melangell, eisteddwch.'

Dyna'r llais eto! Llais tyner iawn o'i gymharu â'r curo eiliadau ynghynt. Ymestynnodd llaw ac eistedd ar fy ysgwydd. Gadewais iddi fy ngwthio'n araf nes i mi eistedd ar esmwythder y melfed. Aeth ton o gynhesrwydd trwy fy nghorff.

Trois i gyfeiriad y llaw.
'O Ffred, ti sydd ynal'
'Sut ydych chi rwan, Miss. Mi fues i'n curo ar y drws am funudau cyn i chi ddechrau gweiddi. Lwcus fy mod i yma, ynte?'

'Ia, Ffred, — ia.'
'Wel, beth oedd yn bod Miss Melangell. Rydych chi'n dal i edrych braidd yn welw.'

'Dim Ffredd, — dim byd o gwbl.'
'Ond y gwei...'
'Cei fynd rwan, Ffred. Fydda i'n iawn.'

Bu saib hir wedyn. Edrychodd Ffred arna i gyda thosturi fel pe bawn i'n wallgo. Mae'n rhaid ei fod o'n sâl. Ydi o'n gwybod am Siwan, tybed?
'Fe fydd y sioe yn cychwyn mewn dau funud, Miss.'

'Iawn, Ffred. Fydda i allan yn o fuan.'

Brysiodd Ffred allan gan sibwrdd o

dan ei wynt.

Edrychais yn y drych. Roedd y lliw coch wedi dychwelyd i fy ngruddiau. Taflais fy mhen yn ôl nes gwneud i'r goron aur hedfan o boptu fy wyneb.

Cerddais yn osgeiddig allan trwy'r drws gan godi'r gŵn i ddangos fy esgidiau tlws. Brysiais i fyny'r llwyfan a chyrraedd yno pan oedd y llenni yn codi. Rhedais ar y llwyfan yn canu 'Evita' a'r dawnswyr yn dilyn rhythmau fy nghanu a'm corff.

Breuddwydiais am ganu fel hyn pan oeddwn i'n ifanc, yn canu deuawd gyda Siwan. Ni châl neb na dim ddifetha'r foment wych hon. Canolbwyntiais ar y geiriau fel na allai Siwan dorri ar fy nhraws.

Ceisiais ei chlywed, ond nid oedd hi yno! Diolch byth. Gyda'r frawddeg olaf, daeth cymeradwyaeth anferthol o'r dorf. Teimlwn fel brenhines, fi oedd y frenhines!

Ni allwn i adael y llwyfan. Roedd yn rhaid i mi gael clywed y bobl hyn yn fy hoffi am unwaith. Gafaelodd un o'r dawnswyr yn fy llaw a'm hebrwng oddi yno.

Roedd y chwys yn ddiferion mawr ar fy nhalcen. Ni wyddwn i pam.

'Tyrd!'

O na! Siwan, gadael fi! Dos oddi yma, rwan. Plis!

'Dos, bydd yn barod.'

Ond mynd i le! Dydw i ddim yn dy ddeall di, Siwan.

'Dos!'

Yna, deallais fy mod i fod i fynd ar y llwyfan. Roedd yr actorion eraill i gyd yn fy nisgwyl i. Brysiais yno ond ni ddeuai'r geiriau o fy ngenau.

'Dweud rhywbeth.'

Siwan eto! Cau hi, plis! Mae pawb yn edrych arna i. Yn syllu arnaf fel petawn i'n wallgo.

'Gwaedda!'

Na wna.

'Gwaedda, gwaedda, gwaedda...'

Roedd llais Siwan yn byddaru fy meddwl yn llafarganu. Ni allwn i feddwl am ddim byd.

Gwaeddais. Bloeddais gyda fy holl nerth. Daeth ochenaid o arswyd o'r dorf. Ofn! Unwiath eto roeddynt yn fy ofni. Dechreuais grynu.

'Ffwi!'

Paid, Siwan! Plis paid. Brasgamais i lawr y grisiau a chloi fy hun yn yr ystafell. Torrodd fy nannedd i mewn i gnawd fy llaw i geisio cael gwared ohoni.

'Pam wnest ti hynna?'

Wnes i ddim trio. Chdi achosodd o unwaith eto. Pam na wnei di fy ngadael i?

'Mae gen i gywilydd o fod yn chwaer i ti.'

Nid chwaer wyt ti ond llais. Dim ond llais!

'Chwaer! Chwaer! Chwaer! Chwaer! Chwaer!'

Iawn, Siwan, chwaer wyt ti. Rwy'n teimlo'n wan. Mae'r holl fywyd wedi'i rwygo ohonof fi.

'Mae'n hen bryd i ti farw.'

Na, Siwan. Na!

'Ti wedi cyflawni gwyrrth dy fywyd! Chefais i ddim!'

Na, Siwan.

Llifai'r chwys i lawr fy wyneb. Edrychais i'r drych. Nid oedd fel llestr porslen. Nid oedd yn brydferth. Fi oedd hon. Hylltra gwyllt Sara Melangell. Pam? Taflais fy nwrn i ganol y drych — nes datgelu gwaed. Llifai'r gwaed o fy ngarddwrn, wedi'i sleisio gan y gwydr. Edrychais yn syn ar y gwaed yn diferu ar y carped gwyn, — yn malurio amherffeithrwydd!

Tammi Jones

NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL (Parhad)



Yr Adran Saesneg: Bu nifer o ddisgyblion dosbarth 3 yn brysur yn ddiweddar yn gweithio ar gyfer cystadleuaeth 'Puffin Books'. Y dasg oedd cynllunio clawr ar gyfer unrhyw un o'r llyfrau roeddynt wedi eu darllen yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn.

Bu dau o'r trydydd dosbarth yn llwyddiannus. Daeth Gareth Price yn gyntaf ac yn ail yn y gystadleuaeth am lunio clawr a daeth Alex Cropper yn ail yn y gystadleuaeth hefyd. Enillodd y ddau offer arlunio yn wobwr am eu gwaith. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

'Mileidi' a Hwyl y Cestyll

Mae'r ddrama'n dechrau ar Fai 23 gyda char Bentley gwyrdd a hufen yn aros tu allan i Gastell Bryn Bras. Daw dau ddyn allan ohono, y naill, sef y chauffeur, a'r llall, sef y bytlyr mewn lifrai gweddus i'w swyddi. Maent wedi dod yr holl ffordd o Lundain i baratoi ar gyfer arhosiad un noson eu cyflogwr — sydd heb gyrraedd eto. Maent yn cyfarch Mrs Marita Gray-Parry y perchennog ac yn mynd â photel o 'champagne' i'r fflat yn y castell lle bydd eu meistres yn aros.

Yn ddiweddarach yr un diwrnod mae hofrennydd o Lundain yn glanio wrth y castell ac ohoni daw dwy wraig ifanc tua 30 oed. Yn y dderbynfa cyflwyna'r merched eu hunain fel Lady Rosemary Aberdour a'i ffrind Claire Conwy.

'Roedd pethau wedi eu trefnu ynglŷn â'r arhosiad ymlaen llaw wrth gwrs. Dywedodd Mrs Gray-Parry iddi dderbyn galwad ffôn gan rywun oedd yn siarad ar ran Lady Rosemary i ddweud ei bod yn bwriadu aros ym Mryn Bras. Pwrpas hyn oedd iddi gael rhoi parti pen-blwydd arbennig, oedd i fod yn syrpreis, i'w ffrind, Claire Conwy — a hynny yng Nghastell Conwy! Er bod y noson o arhosiad wedi ei thalu amdani gyda cherdyn credyd 'roedd Mrs Gray-Parry yn ddigon amheus o'r holl beth i

wneud rhywfaint o waith ymchwil ar ei darpar-westai. Ac yn wir, 'roedd yna Lady Aberdour, ac yn dod o'r Alban.

Ymlaen â'r ddrama. Ar ddechrau'r gyda'r nos daw'r ddwy o'r fflat wedi paratoi eu hunain ac wedi gwisgo'n briodol i fynd allan i 'ddigwyddiad' arbennig. Naid i'r hofrennydd ac ymhen dim mae'r ddwy yng Nghastell Penrhyn yn gwrando ar Fand Deiniolen. Ar ôl ychydig amser yno maent yn teithio'n gyfforddus, yn y Bentley y tro hwn, i Gastell Conwy, sydd wedi'i logi'n arbennig gan Lady Rosemary ar gyfer yr adloniant Canoloesol y mae wedi'i drefnu ar gyfer ei ffrind.

Yna, i'r car unwaith eto ac yn ôl i Gastell Penrhyn ar gyfer pryd o fwyd arbennig i'r ddwy yn y Neuadd Fawr, gyda chôr o gantorion o Covent Garden a thelynor a chonsuriwr i'w diddori.

Daethant yn ôl i Fryn Bras yn oriau mân y bore. Ar ôl brecwast, wedi ei baratoi iddynt gan y bytlyr, buont yn sgwrsio gyda Mrs Gray-Parry ac yn mwynhau'r castell a'r gerddi. Ddiwedd y pŵn maent yn gadael yn yr hofrennydd. Ond rhaid troi'n ôl oherwydd niwl. Glanio eto ger Bryn Bras, naid i'r Bentley ac i ffwrdd â nhw.

Y tro nesaf i Neville a Marita Gray-Parry 'gyfarfod' â'u gwestai ymddangosol gyfoethog oedd, fel y gweddill ohonom mae'n debyg, ar y newyddion cenedlaethol. Hi oedd yr un 'Lady' ag a oedd wedi diflannu gydag arian mawr yr oedd wedi trefnu i'w gasglu ar gyfer ysbytai.

Yr Ysfa i Grwydro gyda Selwyn Griffith

Pan ddechreuais i grwydro'r byd yn weddol rheolaidd tua deugain mlynedd yn ôl, roedd croesi'r sianel i Ffrainc neu'r Iseldiroedd yn dipyn o wefr. Doedd America, Rwsia, Awstralia, Canada, Tailand ac yn y blaen ddim ar fy atlas crwydrol i y pryd hynny. Mynd yr oeddem ar deithiau Clybiau Ieuencid gyda'r diweddar I B Griffith, ac fe erys yr atgofion am y teithiau pleserus hynny yn fyw ar y cof. Mae'n bur debyg mai y teithiau hyn a blannodd yr awydd ynof i gael gweld yr hyn a fedrwn o'r hen fyd 'ma cyn cael fy nghornelu gan henaint.

Mae 'na sawl hen ddihareb Sieineidd yn honni fod y sawl sy' wedi teithio mil o filltiroedd yn ddoethach o gryn dipyn na'r saawl sy' wedi darllen mil o lyfrau. Does dim angen gŵr doeth i sylweddoli gwirionedd y ddihareb yna.

Rwyf wedi bod yn hynod ffodus i gael ymweld â rhai gwledydd fwy nag unwaith. Feddyliais i rioed pan oeddwn yn grwtyn yn Ysgol Bethel y cawn i weld rhyfeddod rhaeadr Niagara unwaith, heb sôn am brofi'r wefr deirgwaith. Bob tro y bydda i'n synfyfrio i gyfeiliant y dyfroedd taranlyd, mi fyddai'n meddwl am eiriau Oscar Wilde. Cyfaill iddo yn datgan barn ac yn dweud — 'Dyma chi ryfeddod', gan bwyntio at rym y rhaeadr. 'Rhyfeddod?' meddai Wilde, 'dim o gwbwl, y rhyfeddod fyddai petai'r dŵr yn mynd i fyny yn ôl.' 'Bedach chi'n feddwl o America?' meddai cyfaill wrtho.

'Siomedig iawn,' meddai Wilde, 'ac roeddwn yn siomedig yn yr Atlantic Ocean hefyd.'

'O, sut felly?'

'Roeddwn i'n meddwl y bydda fo'n fwy o lawer,' meddai Wilde.

O'r holl wledydd y cefais y fraint o ymweld â hwy, Canada, yn fy nhyb i, yw'r harddaf. Hynny yw, y Ganada rhwng Calgary a Vancouver — gwlad y Mynyddoedd Creigiog, y llyunnoedd, y rhaeadrau di-ri a'r rhewlifoedd.

Y tro hwn, manteisiais ar fynd ar daith mewn hofrennydd dros y Mynyddoedd Creigiog, ac yn wir anghofia i byth y profiad. Roedd hyn yn fwy o wefr hyd yn oed na mynd drwy'r Ceunant Mawr — y 'Grand Canyon' mewn awyren. Cafodd Myra y fraint o fod yn 'co-pilot' ar y daith.

Canada, wrth gwrs, ydy'r ail wlad fwyaf yn y byd a hawdd y gellir credu gwirionedd hyn wrth gwrydro ar drws y wlad. O'r pedair dinas enwog sy' ar ochr ddwyreiniol y wlad: Toronto, Montreal, Quebec ac Ottawa, yr ola yw'r harddaf a'r fwyaf diddorol i'm tyb i, a dyma brif ddinas y wlad, wrth gwrs.

Ond i weld rhyfeddodau a golygfeydd godidog y wir Ganada, rhaid hedfan dros daleithiau Manitoba a Saskatchewan, a glanio yn Calgary — a dyna chi ar drothwy y Mynyddoedd Creigiog.

Mae Calgary yn nhalaith Alberta ac yn enwog am y stampid blynyddol. Hefyd mae'n ddinas hardd sy' wedi datblygu cryn dipyn

ers pan fûm i yno o'r blaen, tua pymtheng mlynedd yn ôl. Dinas y Gemau Olympaidd hefyd. Do fe wnaed tipyn o hwyl am ben Eddie 'the Eagle' druan pan oedd y gemau gaeaf yn Calgary, ond o sefyll ar frig y llithriad ac edrych i lawr y serthedd llithrig i'r gwaelodion, coeliwch fi, roedd Eddie yr Eryr yn haeddu mwy na gwawd am ei wrhydry.

Rwy'n dreifio car bron bob dydd ers dros deugain mlynedd bellach, ond yr hyn fydd yn fy nychryn i weithiau, yw y ffaith fy mod i wedi hedfan o leia ddwywaith cymaint o filltiroedd ag rwyf wedi eu dreifio. Anhygoel ynte? a tydi blynyddoedd yn 'fflio'.

Peidiwch a choelio y boi hwnnw a dd'wedodd iddo 'weld' Canada i gyd, ar ôl treulio awr ar ben y tŵr yn Toronto — y tŵr ucha'n y byd.

Na, mae Canada yn wlad aruthrol o fawr. Ond, — ar ôl meddwl, ma'r hen fyd 'ma yn eitha bach hefyd, yntidi?

Rhyddid i'r Ifanc

Nosweithiau Roc

yr Eisteddfod Genedlaethol

Bydd nosweithiau roc Cymdeithas yr Iaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni oll yn hybu ymgyrch 'Siarter '91 Rhyddid i'r Ifanc'. Bydd posteri a baneri'r Gymdeithas yn y neuaddau a byddwn yn gofyn i grwpiau ystyried cyfansoddi caneuon newydd dros ryddid i bobl ifanc gael gwaith a chartrefi, rhyddid i gael addysg berthnasol a llais yn y cyfryngau, rhyddid i ddatblygu diwylliant ieuencid ac i gael llais gwleidyddol.

Mae'r Gymdeithas wedi sicrhau tair canolfan o fewn dwy filltir i faes y Steddfod gyda'r cynlluniau mwyaf uchelgeisiol erioed o ran amrywiaeth cyngherddau roc.

Tivoli, Bwcle: un o brif neuaddau dawnio'r Gogledd gyda digwyddiad mawr bob nos.

Clwb Sureways, Yr Wyddgrug: ar gyfer y nosweithiau cabaret.

Canolfan Chwaraeon, Yr Wyddgrug: Cyfle i'r grwpiau newydd — gan gychwyn gyda grwpiau newydd Clwyd yn lansio 'Siarter '91' ar y nos Lun hyd at noson grwpiau dawns newydd ar y nos Sadwrn.

Mae arian yn brin y dyddiau hyn, ac felly mae'r Gymdeithas wedi cadw prisiau reit i lawr — yn cychwyn o 1.80. Mae'r prisiau'n rhatach nag yn Eisteddfod Tregwyr dros ddeng mlynedd yn ôl!

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON



Gwawriodd dydd Sadwrn, Mai 25 yn ddiwrnod cymylog a braidd yn bryderus y cychwynasom am Lleuar Bach, Pontllyfni. Ond nid oedd rhaid poeni, erbyn tua deg 'roedd yr haul yn ceisio dod allan a chawsom ddiwrnod heulog braf i gynnal ein Rali blynyddol.

Ar ôl y panics o anghofio rhai pethau gartref a'u cael i Bontllyfni, gwellhaodd y diwrnod wrth iddo fynd ymlaen. Bu nifer o'r aelodau yn brysur drwy'r dydd a heb gael amser i orffen eu cystadleuaeth. Cymerodd yr aelodau ran mewn nifer o gystadlaethau a chafwyd gwobrau mewn nifer ohonynt.

Newyddion da a gawsom y peth cyntaf yn y bore drwy gael gwybod fod Nia a Tegwen wedi dod i'r brig yn y gystadleuaeth coginio dan 18 oed. Y thema oedd 'Blas ar Ewrop'. Llongyfarchiadau iddynt. Byddant yn awr yn cynrychioli Eryri yn y Sioe Frenhinol Gymreig. Mentrwyd i gystadlaethau newydd eleni sef y tynnu rhaff — wyth o'r hogiau dewrion wedi mentro i'r maes. Mae'n well i chi ddechrau bwyta uwch bob bore o nawr tan y Rali nesaf os ydych eisiau gwneud gwell argraff.

Cafodd ein Llyfr Lloffion y bedwaredd wobwr, diolch i Gwen am wneud y gwaith. Cariwyd tywarchen o wellt o Bengelli Isaf a dyfarnwyd yr ail wobwr iddi. Thema'r cywaith coginio oedd Bwyd Eidalaid. Bu Gwen a Helen yn brysur yn coginio a Nia a Helen yn ei osod — pizza, Italian trifle, Italian Bean and Pasta soup a Lasagne a arddangoswyd. Enillwyd y drydedd wobwr. Bu Rhys, Tudur, Aled ac Elwyn yn beirniadu'r Gwartheg Duon. Daeth Rhys yn drydydd dan 16 oed. Trwy'r bore bu Alwyn a Meilyr yn adeiladu sêr i'r ardd gyda choed a chawsant y drydedd wobwr. Yn y gystadleuaeth Lwc Mwnci, Bethan fu'n ymgeisio dan 18 oed — blasu pymtheg o wahanol fwydydd a'u henwi. Gwnaeth yn dda iawn trwy ddod yn drydydd. Dan 21 oed gwneud jig-so oedd y gamp — diddordeb mawr Catrin — a hi ddaeth i'r brig. Wendi aeth i ymgeisio dan 26 oed. Y gamp oedd adnabod gwahanol eitemau er bod y cystadleuydd dan fwgwd. Gwnaeth ei gorau; 'roedd yn anodd. Aled ac Eurwyn fu'n cystadlu ar Farnu Defaid Cymreig; gwnaeth Eurwyn yn dda iawn trwy ddod yn ail. Bu Rhys, Aled, Dafydd ac Eurwyn

yn barnu Wyn Cigyddion a gwnaethant yn dda iawn trwy gael y drydedd wobwr dan 16 oed, y bedwaredd wobwr dan 18, a'r ail wobwr dan 21.

Addurno teisen ar gyfer dathliad arbennig oedd camp Nia. Gwnaeth waith destlus a dyfarnwyd y bedwaredd wobwr iddi. Elwyn oedd yr aelod mwyaf dewr ohonom: eisteddodd am hanner awr fel y gallai Tegwen a Llinos ei wisgo fel clown. 'Roedd yn edrych yn dda iawn hefyd. Cawsant y drydedd wobwr.

Arddangos llysiau a/neu ffrwythau mewn ffenestr siop oedd camp Llinos Wyn. 'Roeddynt yn edrych yn ddeniadol. Cafodd y drydedd wobwr. Ar ffurf cheerleaders 'roedd yr aelodau i hyrwyddo gwlad dramor. Dewiswyd America a chafodd y genethod gryn hwyl ar y ddawnsio. Daethant yn drydydd. Aeth naw aelod i ddawnsio gwerin. Pont Cleddau oedd y ddawns. Dawnsiodd pawb yn dda iawn a dyfarnwyd hwy yn ail.

Bu'r aelodau yn cystadlu yn y cystadlaethau canlynol ond ni ddaethant i'r brig: adnabod y defaid, ras rwystrau i ferched a bechgyn, treialon beic fferm 4 olwyn, gyrru tractor a threlar a thynnu rhaff. Ar ddiwedd y diwrnod 'roedd y clwb yn bedwerydd gyda 302 o farciau. Diolch yn fawr i pawb am wneud eu rhan.

Carem ddiolch i Mr a Mrs Alan Jones, Lleuar Bach am roi benthyg y sied inni. Diolch arbennig i hogiau'r clwb a fu'n brysur gydag aelodau Dyffryn Nantlle yn paratoi a chlirio yn Lleuar Bach ac i'r rhai fu'n gosod y byrddau nos Wener a'u clirio wedyn. Cafwyd rali lwyddiannus dros ben, diolch i'r rhai a ddaeth i gefnogi. Gobeithio ichwi gael mwynhad.

Gyda'r nos cynhaliwyd dawns yn Lleuar Bach a chafwyd noson dda iawn.

Cynhaliwyd Cymanfa nos Sul, Mai 26 yng Nghapel Glanrhyd. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Aled, Elwyn ac Alwyn o'r clwb, a Iona a Meleri o Glwb Dyffryn Nantlle. Yn ystod y gymanfa cafwyd eitemau

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Cant Ysgol Dolbadarn: Dyma'r enillwyr am y mis yma: 25: Mrs Helen Morris, Ffordd Capel Coch (167); 15: Ron Williams, 23 Dol Elidir (66); 10: Derek Wyn Roberts, 50 Maes Padarn (68).

Diolch: Dymuna Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'r Clinic ac ar ei phen-blwydd.

Diolch: Dymuna Geynor Williams, Fflat 3 Glan Dŵr ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i staff Ward Conwy am eu caredigrwydd.

Cyfarchion Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a dymuniadau da i ti Julie yn 18 oed, oddi wrth Mam, Dad, Nicola, Jason, Nain, Dilys, Dawn a Kelly.

Diolch: Dymuna Megan Hughes a theulu y diweddgar Alun Hughes, 9 Rhes y Faenol ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod,

gan aelodau clwb Dyffryn Nantlle a chanodd Menna 'Diolch am Weddi'r Arglwydd' fel eitem o Glwb Caernarfon. Gwnaed casgliad yn ystod y cyfarfod ac o ganlyniad cyfranwyd £57 i gronfa er cof am Mrs Anwen Morgan, Cae Hen, Bontnewydd. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac yn enwedig i Mrs Betty Williams, Pontllyfni am arwain, Mrs M. Evans, Penygroes am fod wrth yr organ, Mr Hugh Ll. Jones am lywyddu ac i swyddogion Capel Glanrhyd am adael i ni gynnal y Gymanfa yno.

Nos Fawrth, Mai 28 cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y clwb i roi terfyn ar weithgareddau'r gaeaf. 'Roedd nifer o'r aelodau yn siomedig nad oeddem yn cyfarfod drwy'r haf, felly penderfynwyd cynnal ambell weithgaredd iddynt. Dyma'r swyddogion am 91-92: Myfanwy Jones (Arweinydd); Eirwyn Jones (Is-arweinydd); Aled Jones (Cadeirydd); Alwyn Jones (Is-gadeirydd); Gwen Jones (Trysorydd); Helen Jones (Ysgrifennydd Cystadlaethau); Bethan Jones a Ruth Parry (Ysgrifennydd Rhaglen). Bydd y Clwb yn aildechrau ym mis Medi.

tad a thaid annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil y Cancr a Changen Llanberis o Hospis yn y Cartref. Cafwyd cyfanswm o 400.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd gwasanaeth Undeb y Mamau yn Eglwys St Padarn, dydd Mawrth, 4 Mehefin o dan ofal Mrs Betty Humphreys.

Cafwyd sgwrs ddiddorol dros ben gan Mr Selwyn Pritchard a fu'n edrych yn ôl ar ddigwyddiadau adeg y Rhyfel Cyntaf.

Cawsom adroddiad gan Mrs Humphreys am y gwasanaeth gafwyd yn y Gadeirlan, Bangor fis diwethaf. Y gweinyddesau ar y noson oedd Mrs L Pugh, Mrs B Hughes a Miss C Pritchard a diolchwyd iddynt ac i Mr Pritchard gan Mrs H W Williams a Mrs D McKean.

COLLWYD BREICHLLED AUR rywle yn Stryd Fawr Llanberis yn ystod yr wythnos 3-10 Mehefin. Ffoniwch 870411

RHAGHYSBYSIAD

Theatr Bara Caws
Yn perfformio
'Y Gweledigaethau'
yn neuadd Ysgol Brynrefail
nos Fercher, Hydref 2
Rhagor o fanylion eto

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
5754

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470
Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

CHWILOTA BRYN COSTRELAU A BRYN ECLA



Yn dilyn y cais am wybodaeth ynglŷn â 'Refail Newydd, a llythyr Mrs M G Williams, Bethel, daeth mwy o fanylion i law — unwaith eto gan yr un llythyrwraig. Diolch am ddangos diddordeb ac am drafferthu i anfon gair.

Mae Mrs Williams yn dyfynnu o lyfr Thomas Phillips (ap Iolen) sef 'Bro Deiniol' a gyhoeddwyd yn 1935. Sôn mae'r awdur am ardal ei fagwraeth, sef Refail Newydd, bro'r Glasgoed a Phenisarwaen. Yn y gyfrol sonnir am ddau gymeriad yn byw yn 'Refail Newydd, sef John Roberts (teulu Isgaer yn ddiweddarach) a Thomas Williams (teulu Llys Iolen). Awgryma Mrs Williams mai 'dyn dwad' oedd Thomas Williams, wedi bod yn was fferm yn ardal Bethel, ac yna'n ddiweddarach yn y Glasgoed. Chwarelwr oedd John Roberts. Ai'r ddeuddyn hyn a fu'n gyfrifol am adeiladu 'Refail Newydd?

Â Mrs Williams ymlaen i sôn am Fryn Costrelau: 'Chwalwyd y tŷ i ledur'r ffordd. Ni chofiaf neb yn byw ynddo, ond dywedodd mam wrthyf lawer gwaith y byddai y ferch yn magu llawer arnaf.

Gadawyd y tŷ i fynd yn waeth o wythnos i wythnos, maluriwyd ef a llawer o ddwyn coed etc. ohono. Yr oedd gardd dda o'i flaen yn llawn coed gwsberis, bŵm yno lawer gwaith yn casglu rhai, nid oedd drwg, gan nad oedd neb yn byw yno. 'Roedd math o hoywal yma yn wynebu'r ffordd, heb ddrws, a phan yn blentyn ofnwn ei basio, gan y byddai llawer i hen drempyn yn gorffwys ynddo, ond bu amser pan y byddem fel plant yn chwarae ynddo hefyd.'

Mae'n amlwg i'r enw Bryn Costrelau ennyn chwilfyredd Mrs Williams, ac anfonodd air at yr Athro Bedwyr Lewis Jones yn holi amdano — a hefyd am yr enw 'Bryn Ecla', lle'r oedd ysbyty o fath yn bodoli yn yr oesoedd cyntefig yn ôl traddodiad. Dyma'r ateb a dderbyniodd:

'Mae BRYN ECLA' yn ddirgelwch llwyr i mi. Ni lwyddais i weld cyfeiriad at yr enw yn unman — ar fap nac ar ddogfen. Rwy'n ofni na wn ddim amdano.

Mae Thomas Pennant yn hanes ei daith trwy Gymru dros ddau gan mlynedd yn ôl yn sôn am fynd heibio Pen-y-gaer, yna Bryn y Costrelau, ac ymlaen at Gaer Cwm y Glo neu Caer Carreg y Frân. I Pennant yr adeg honno, enw ar hen gaer gyn-hanes oedd Bryn Costrelau. Ni wn pam y cafodd y lle yr enw hwnnw.'

Ond ble mae BRYN ECLA? Cae mawr ar godiad tir tu cefn i Gapel Glasgoed ydyw. Yn ôl traddodiad mae'n arwydd o dywydd braf pan fo gwartheg yn casglu ar y rhan uchaf ohono. Roedd y cae yn eiddo i fferm y

Glasgoed, ac yn yr Arolwg o Stad y Faenol a wnaethpwyd yn 1809 gan Walter Jones, mae'n cael ei enwi fel BRYN NICLAR.

* * *

Mae'n debyg mai'r ffaith hanesyddol bwysicaf a ddadlenwyd yn yr Ysgol Undydd ar Hanes Lleol yn Llanberis yn ddiweddar — a honno'n ysgol hynod lwyddiannus — yw'r ffaith i ddathliad daucanmlwyddiant y Capel Coch, Llanberis gael ei gynnal ddeng mlynedd yn rhy fuan! Gobeithio y gellir rhoi mwy o'r hanes yn y dyfodol agos.

Derbyniais alwad ffôn gan un o ffyddloniaid y golofn — Dafydd E Pritchard, Llanrug — yn adrodd hanes darganfod carreg fedd y **tu allan** i fynwent plwyf Llanrug. Mae peth gwaith ymchwil i'w wneud cyn y daw'r holl hanes i'r golwg.

Cofiwch anfon gair ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol y fro.

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Miri'r Haf: Angen Ail-feddwl

Mi fydda'i bob amser hinon Haf fel hyn, gan fy mod i'n berchen Asda Martin Lagonda Ji recs rwbath a hwnnw'n faw colomennod o'i fonet i'w gist-ôl, yn mynd ati i foddhau'r wraig a'r deg plentyn acw drwy fynd â nhw am sbin bach sydyn o Nant Peris i Ben y Pas, gan ganu fy nghorn ar bob congl rhag ofn fod penolau fisitors yn brigo i'r golwg, oherwydd gwn o'r gorau am eu hamryfal gastiau i dynnu sylw at eu cyrff heini-iach drwy wyro dros y cloddiau ymhobman ond ble y maent i fod, yn rhyfeddu at ddŵr gloyw ein hafonydd cyn iddyn nhw eu baeddu.

Gyda'r blynyddoedd yr oedd yr Haf yn rhywbeth i edrych ymlaen ato. Croesawn dymor yr Haf gydag ardeilad. Ond gwae pob sôn! Eleni trôdd yr Haf yn dymor anobaith. Do'n wir! A haeraf fod rhywun yn rhywle yn ceisio gneud bywyd yn anodd i mi a'm teulu. Pam gebsyt felly mynd ati yn nhrymder yr Haf i dylu a thyrchu'r tarmac a gadael ein pytau gogoneddus o lonydd yn un cowdal blêr, yn fwy o gaeau tatws na dim byd arall? Yr holl dyrchu ac ail-dyrchu a hyd yn oed drydydd-dyrchu ar lonydd, a hynny adeg 'y gwenoliaid haf' fel petae, pryd y mae ein lonydd yn or-law'n o feiciau, lorïau, bysiau Crosfil, faniau, moduron ac ychwaneg o fysiau Crosfil. Yr

ateb gyfeillion annwyl? Fe benderfynodd rhywun yn rhywle (ac mae'n anodd iawn cael at y gwir, a phwy sy'n gyfrifol) wario gweddill arian y Cyngor Sir. Go brin hefyd. Mae'n haws gen i goelio bod angen gwell peipiau ar ein hardaloedd. Dyna paham y tyllu oherwydd mae 'na'n llythrennol filltiroedd ar filltiroedd o beipiau dan darmac du ein lonydd. A'r unig ateb, fwyn gyfeillion, yw eu dwyn i'r amlwg. Twll felly. Sy'n rhoi pwy bynnag sy' wrthi mewn diawl o dwll, boed yn Fwrdd Nwy, Trydan, Marblis neu Faisonets — rai misoedd yn ôl tarmacwyd y dam lôn ac rwan? Blicin goleuadau ymhobman. Tomenni. Graean. Tarmac ar hyd y lle. Llanast. Ac os gwelwch chwi'n dda a wêl rhywun yn dda egluro paham yr holl arwyddion Seisnig ac weithiau arwyddion â chyfieithiadau salw yn y Gymraeg sy'n peri i ni feddwl fod y gwybodusion yn rhywle yn mynd ati'n fwriadol i anwybyddu'r heniath. Wedi cael llond bol hefo'u diffyg gweledigaeth? Y diffyg cyd-weithredu? Y diffyg cynnlunio ymlaen llaw? Ust! Dowch heibio, mae 'na Asda Martin Lagonda Ji Reg ar werth, a'i bris? Dim byd ond i chwi ofalu fod y wraig, sy'n ei dagrau, a'r llwyth plant a minnau yn cael blwyddyn o wyliau gan y sawl a fydd ei brynu, mewn gwlad sydd heb lonydd a faluriwyd yn nhymor prysur yr Haf.

Yr Ardd Flodau

Bu'r rhan fwyaf o fis Mehefin yn oer a stormus a chan fod amryw o'r blodau talaf heb eu rhwymo (oherwydd esgeulustod) y mae'r gwyntoedd wedi gwneud tipyn o lanast, a rhaid mynd ati yn ddiymdroi i roi trefn ar y forder flodau parhaol, herbaceous border, fel y geilw'r Sais y rhan yma o'r ardd. Yn anffodus, bydd gwyntoedd cryfion ym mis Gorffennaf hefyd a rhaid mynd ati'n ddiymdroi i'w rhwymo wrth gansenni.

Y blodau parhaol ydi'r blodau sy'n marw i lawr yn y gaeaf ac yn y gwanwyn dont allan o'r pridd yn wyrdd, y rhan fwyaf wedi dal y tywydd garw. Yna cawn sioe liwgar o Fehefin hyd ddiwedd Medi. Mewn gardd eang gellir cael border o flodau yn unig ond mewn gardd lai gellir cael cymysgedd o lwyni byr. Y mae'r Potentilla yn ffefryn, llwyn o flodau melyn ac yn lliwgar iawn drwy'r haf; y Spirea Anthony Waterer a'r Careopteris, llwyn o flodau glas — y llwyn olaf i flodeuo ddiwedd yr haf. Lafant hefyd, a'i arogl hyfryd. Bydd y rhain yn dipyn o amrywiaeth.

Beth am y blodau talaf yng nghefn y border? Y Delphinium, sy'n blodeuo'n gynnar, a'r Lupin rua'r un adeg. Mae'n ddrwg gennyf na allaf gael yr enw Cymraeg ar rai o'r blodau hyn, ond nid enwau Saesneg sydd arnynt chwaith. Mae yna ddau rosyn mynydd pinc ond y mwyaf cyffredin yw'r llwyn o rosyn mynydd coch, y phlox amryliw a'u harogl hyfryd. Deil rhain y tywydd stormus heb eu rhwymo. Fe'u gelwir yn 'ladis bach' gan rai, ac yn wir maent yn dawnsio yn yr awel. Mae'r wialen aur yn boblogaidd hefyd, ac wrth gwsr

y Ffarwel haf at ddiwedd y tymor. Llanwodd cyfaill i mi rai llefydd gwag efo Blodau Mihangel (Chrysanthemums), y rhai sy'n tyfu allan yw'r math yma ond y mae rhai i fynd i'r tŷ gwydr ddiwedd y tymor a bydd yna sioe hyd at fis Ionawr. Bydd rhai at y 'Dolig yn sicr.

Cawn sôn am y blodau sydd ym mlaen y fordor eto. Y fath amrywiaeth sydd yna. Meddyliais am emyn y Pêr Ganiedydd:

Mi bellach goda'i maes
Ar fore glas y wawr
I weld y blodau hardd
Sy 'ngardd fy Iesu mawr.
Amrywiol ryw rasusol pur
A firwythau'r paradwysaidd dir.

Pwyllgor Merched Arfon Plaid Cymru

Bu'r stondin gacennau a drefnwyd gan y pwyllgor ar Sadwrn, Mehefin 22ain yn llwyddiannus iawn. Dymuna'r swyddogion ddiolch yn gynnes i bawb a gyfrannodd gacennau, nwyddau a chynnyrch gardd, a Mrs Meinwen Lloyd y trysorydd am y rhoddion ariannol. Ni fyddai llwyddiant heb eich cefnogaeth

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

1. **Arwyn Jones**, Isfryn, Cwm-y-glo, (5oed).
2. **Dafydd Harri Morris**, Tŷ Capel M/C, Dinorwig, (7oed).
3. **Elfed Morgan Morris**, Llechwedd, Deiniolen, (8oed).


Oed.....

This is a black and white line drawing of a city skyline, designed as a coloring page. The scene includes several buildings of different shapes and sizes, a tall chimney, a clock tower with a clock face, and a large sun in the sky. The drawing is overlaid with a grid of numbers (1-6) for a coloring activity. The numbers are placed in various shapes and sizes, corresponding to the different parts of the drawing. For example, the sun is a large circle with the number 5 in the center. The clock face is a circle with the number 5 in the center. The buildings are composed of various rectangles and triangles, each containing a number. The sky is filled with stylized clouds, each containing a number. The overall style is simple and cartoonish, suitable for children's coloring.

6. Du

ECO'R IFANC

- 1. Coch; 2. Glas Golau; 3. Oren;
- 4. Brown; 5. Gwyrdd Tywyll;
- 6. Pinc; 7. Gwyrdd Golau;
- 8. Melyn 9. Glas Tywyll.



CORNEL JÔCS

Be'sy'n mynd pwt, pwt, pwt,
pwt, pwt, pwt, pwt, pwt, pwt,
pwt, pwt, pwt?
Golffiwr anobeithiol!

Doctor, doctor, Rydw i wedi colli
fy nghô.
Pryd ddigwyddodd hyn?
Pryd ddigwyddodd be'?

Beth sy'n mynd i fyny pan mae'r
glaw yn dod i lawr?
Ambarel.

Beth sy'n ddu a gwyn a choch
drosto?
Sebra swil!

Beth sy'n ddu a gwyn a gwyn a du
a du a gwyn?
**Pengwin yn rhwlio i lawr yr
allt!**

Beth ddywedodd y babi sardin pan
welodd y llong danfor?
**O, edrych mam — llond tun o
bobl!**

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng ci
a chwannen?
Fel all ci gael chwain;
Ond all chwain ddim cael cwn.

Glywsoch chi am y dyn brynodd
siop bapur?
Ffiodd i ffwrdd!

Beth sy'n wyn, coch a gwyrdd a
du?
Mr Urdd hefo llygad ddu!

EWCH O SGWÂR I SGWÂR A DOD O HYD I 12 O ENWAU COED

P	O	N	S	A	E	B	Y	P	U	P	I	C	R	H	Y
A	Y	S	G	A	W	E	N	C	M	E	L	B	M	S	
W	N	I	E	O	I	S	W	P	R	H	O	M	E	G	R
R	H	E	P	A	L	M	W	Y	D	D	S	L	R	D	F
I	N	T	H	N	Y	W	E	N	G	O	L	P	W	B	N
S	E	O	G	P	U	T	H	D	A	P	A	T	H	E	N
W	N	P	W	B	C	P	P	O	N	R	A	N	E	S	
G	N	Y	R	H	W	I	G	W	N	Y	W	P	S	D	D
O	Y	D	E	R	W	E	N	E	G	Y	E	A	Y	L	
P	L	I	T	H	O	L	L	U	C	G	U	D	B	D	D
N	E	N	E	S	Y	P	S	Y	A	D	P	N	G	O	
T	C	M	R	H	W	B	C	U	L	O	E	D	N	S	P
P	I	N	W	Y	D	D	E	N	E	B	N	T	H	T	I
N	U	G	O	G	E	L	A	H	P	S	B	A	P	B	
G	S	Y	C	A	M	O	R	W	Y	D	D	E	N	S	G

Athro: Petawn i yn rhoi tair
cwnngen i ti ac yna yn rhoi pump
cwnngen i ti — faint fyddai gen ti?
Wil: Naw, syr.
Athro: Naw?
**Wil: Ia, syr. Mae gen i un yn
barod!**

Be' gafodd y draenog i ginio?
Nionod pricl!

Sut y medrwch chi stopio'ch ci
rhag cyfarth yn yr ardd gefn?
Ei roi o yn yr ardd ffrynt!

Beth ddigwyddodd i'r lleidr a
ddygodd galendr?
Fe gafodd ddeuddeg mis?

Beth yw hoff diod llyffant?
Croc-a-Cola!!

Beth sy'n oer ac sy'n dod mewn
tun?
Chili-bîns!

Be ti'n galw parot o'r Alban?
MacCaw!

Beth yw hoff raglen deledu
buwch?
Dr Mw!!!!

Be' gei di wrth groeso giraff hefo
draenog?
Brwsh danedd hir iawn!

**BYDD YR ATEBION
YN Y RHIFYN NESAF**

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon. Ffôn: 871457



Ymryson Cŵn Defaid: Dau Huw enillodd y ddwy gwpan newydd yn Nhreialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch a gynhaliwyd dros Wyl y Banc eleni.

Huw Morgan o Fethel enillodd Gwpan Llwyncoed i'r cystadleuwyr lleol dan 21 oed a Huw Owen o Gaergeiliog enillodd Gwpan Ras yr Wyddfa/Rhedwyr Eryri i'r bugail gorau. Dyma'r seithfed gwaith i'r Treialon gael eu cynnal a chafwyd mwy o gystadleuwyr nag erioed a llwyddiant mawr eto eleni.

Canlyniadau

Agored (Cwpan 'Morris Bros'): 1. Huw Owen, Caergeiliog—Spotan; 2. J Ryan Griffith, Talysarn—Roy; 3. J Ryan Griffith—

Judy; 4. Glyn Jones, Bodfari—Cap; 5. R V Hughes, Rhosmeirch—

Moss; 6. Harold Owen, Nantwich—Pat; 7. D I Morgan, Aberystwyth—lanto; Cydradd 8. Eddie Humphreys, Llanellwy—Roy a E Williams, Llanwnda—Gwen; 9. Huw Owen—Flo.

Ail Ddosbarth (Cwpan 'Wavell Roberts'): 1. Joe Black, Rhualt—Moss; 2. Ifor Jones, Rhualt—Rex; 3. Alan Jones, Pontllyfni—Moss; 4. Gwynfor Pritchard, Llangybi—Hemp; 5. O T Hughes, Rhosmeirch—Mali; Cydradd 6. Elwyn Griffith, Waunfawr—Chip, Len Edwards, Dinbych—Cap a John Ryan Griffith—Roy.

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau lleol yn y dosbarthiadau Agored/Ail ddosbarth) gan W H Hughes, Deiniolen.

Enillwyd Cwpan FMC (y gorau dn 25 oed) gan R V Hughes, Rhosmeirch. Dosbarth Lleol (Cwpan 'Rheilffordd yr Wyddfa' i'r gorau o blwyfi Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a Llandinorwig.) (Cwpan 'Gwesty Dolbadarn' i'r gorau o blwyf Llanberis)

A dyma nhw yr enillwyr lleol, balch yn arddangos eu cwpannau. O'r chwith i'r dde: John Closs, Llanberis; Dafydd Thomas Pritchard, Nant Peris; Elwyn Williams, Penisarwaun; a Huw Morgan, Bethel.

1. Elwyn Williams, Penisarwaun—Roy; 2. Dafydd Pritchard, Nant Peris—Roy; 3. Brian Owen, Nant Peris—Toss; 4. John Closs, Llanberis—Dot; Cydradd 5. Michael Williams, Cwm-y-glo—Roy a Huw Roberts, Bethel—Nel; 6. John N Pritchard, Nant Peris—Bess.

Cwpan R Williams, Mynytho (y gorau lleol dan 25 oed) gan Dafydd Pritchard, Nant Peris.

John Closs, Llanberis enillodd Tiws Cwmni Tithebarn am y 3ydd tro.

Raffi: 1. O Roberts, Bryn y Coed, 27 Nantlle Road, Talysarn: 100; 2. Nerys Owen, Brynteg, 14 Arvonja Terr, Cricieth: 50; 3. E D Roberts, Castell, Nant Gwynant: 25; 4. G Owen, Adran Addysg: Wisgi; 5. Farmers Mart: Addurn; 6. Richard A Jones, 46 Dol Elidir, Llanberis: Vodka; 7. Penny Morgan, Hillborough, Niwbwrch: Hwyaden; 8. Trefor Pritchard, 1 Frondeg, Penmachno: Gin; 9. Mrs M King, 80 Maes Padarn, Llanberis: Wisgi; 10. Joan Hughes, 1 Stryd Tomos, Llanberis: Tocyn cig; 11. Carys (Jews) Llanberis: Tocyn Trin Gwallt.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

RHAGHYSBYSIAD

Cynhelir

Cyngerdd Blynyddol Lleisiau'r Gweunydd

yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas Noswener, Medi 27, 1991.

Trosglwyddir unrhyw elw eleni i "Headway Gwynedd"

Ceir rhagor o fanylion maes o law

O'r Dyffryn yn y Gaiman i'r Waunfawr

Ar Fehefin 11 daeth Côr ifanc y Gaiman, Patagonia i aros yn Waunfawr am rai dyddiau. Yr oeddynt newydd ennill y wobwr gyntaf efo parti deulais yn Eisteddfod yr Urdd yn Nhaf Elai.

Trefnwyd rhaglen eu harhosiad gan Glory a Sioned. Yn y Neuadd, nos Fawrth, cafwyd Cyfarfod Croeso swyddogol efo'r parti bach yn canu, amryw o'r ieuenctid efo'i chwythbrennau, a deuawd fflwt a thelyn. Cyflwynwyd y gwesteion i'r teuluoedd a gwahoddwyd hwynt i'r ddarpar wledd. A ninnau wedyn yn cael y pleser o wrando arnynt yn canu.

Rhyfeddod o'i cael hefo ni oedd clywed enwau dieithr y bobl ifanc ar ein haelwidydd. Yr oedd dau ar bymtheg o'r dau ddeg saith ohonynt a chysylltiadau Cymreig, a rhai yn rhugl yn y Gymraeg, ond yr oedd pawb yn canu yn Gymraeg.

Dyma'r enwau a'n swynodd: Efo Sioned a John Glyn: Adriana Villoria a Monica Caballero; Haydn a Glenys: Florencia Meza a Gilda Roberts; Jean a Dic: Brenda Villoria a Maria Palacios; Morris ac Ann: Diana Owen a Caren Joes; Irene a John: Gisella Maasen a Veronica Martina; Eirug a Gill: Maria Fernanda Vargas a Brenda Mac Burney; Alma a Rob: Maria Gabriela Vargas a Juliana Marras; John a Rhian: Mirna de Ferreira a Marli Pugh; Jina a Berna: Mariano Fernandez a Marcos Ferreira; Mary Vaughan: Marcela Mellado a Julieta Lewis; Joy ac Eifion: Mauro Ferreira a Hugo Torredelfo; Dilks a Bryn: Esther Poliak a Stella de Caballero; John a Glory: Glenda Thomas, Gladys Thomas ac Edith McDonald.

Dydd Mercher: Yweld ag Ysgol y Waun ar gyfer gwasanaeth y bore, a thrwy'r dydd i lawr i Stiwdio Sain yn Llandwrog. Gyda'r nos, aethom i gyd i Lanberis a cherdded at gastell Dolbadarn. Hyn yn syndod mawr iddynt, fod castell a godwyd gan Llywelyn Fawr saith gant o flynyddoedd yn ôl, ynghlwm wrth hanes Cymru, a hynny o hanes oedd i Gymru yn Chubut yn dechrau yn 1865.

Dydd Iau: Taith i Gastell Penrhyn i wneud recordiad i'r BBC. I Ysgol y Garnedd, ac yno cael croeso, cyngerdd a chinio. Yn y pnawn siawns i grwydro siopau Bangor. Am dro wedyn i Ynys Môn — i

Fiwmaris a Llanfairpwllgwyngyll a chroesi'r ddwy bont.

A diwedd glo ardderchog — Asado yn fferm Hendy — gwledd a drefnwyd gan Gymdeithas Môn ac Arfon o Gymdeithas Ariannin. Y lle yn llawn, pobl o Fôn, Meirion, Llŷn a Chonwy a ninnau o'r Waun, i gyd yn mwynhau cig oen blasus, saladau lawer a threiffi o bob math. Canu wedyn, a'r côr ar ei orau pan yn canu y gân a enillodd y wobwr iddynt — 'Cân y Cychwr — dros y môr i Ynys Skye'. Y ddwy anthem genedlaethol, ac adra tua 11 pm.

Fore Gwener: Am naw o'r gloch ger y Neuadd — llwytho a disgwyl y diwethaf, ac i ffwrdd a nhw tua Heathrow am 9.45.

Yn ôl i'r Ariannin fore Sadwrn, pedwar diwrnod eto yn y brifddinas, Buenos Aires, ac adra i faes awyr Trelew — a dim ond deg milltir wedyn i'r Gaiman.

Diolch i chi am ddod i'r Waun.

GERDDI GLASCOED (Ger Capel Glascoed) PENISARWAUN

- ★ Planhigion Border
- ★ Llwyni
- ★ Basgedi
- ★ Grug
- ★ Rhosod hen ffasiwn a llawer mwy
- Galwch heibio neu ffoniwch
- 870453**

FIDEO FIDEO FIDEO

Gwasanaeth Fideo Proffesiynol

**JOHN BLIGHT
LLANBERIS**

872209

Priodasau a phob achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Yn y Camargue

John E Williams

(Rhan o ddeunydd EHANGU GORWELION: project Cymraeg ar gyfer ysgolion Cymru)

Yr oedd y Camargue yn syndod i ni pan aethom yno am y tro cyntaf. Nid oeddem wedi dirnad fod yna ddarn o dir fel hyn yn Ne Ffrainc, a hwnnw mor wahanol ei dirlun a'i weithgareddau i weddill o diriogaethau'r wlad.

Roeddem wedi dod i lawr dyffryn y Rhone, ac wedi cael ein prysuro ar ein taith gan wynt y Mistral oer, sydd yn ysu'r ardaloedd hyn am gyfnodau di-dor weithiau.

Doedd ymweld â'r Camargue y tro hwnnw ddim ar daflen ein taith. Roedd hi'n gymharol gynnar ar y flwyddyn, ond ar ôl gorffwys yn Arles a gweld ei chemaes a'i baddonau Rhufeinig, a chan ein bod wedi cael cwmpeini'r afon o Lac Leman, penderfynasom bellach ei dilyn i'w harllwysiad ym Môr y Canoldir. Ond erbyn gweld, yr oeddem ar lwybr syndod arall: nepell o Arles, mae'r afon yn hollti yn ddwy — y Rhone Fawr a'r Fechan — ac y mae cwrs y rhain yn ffurfio bras derfynau i driongl sydd yn cynnwys arwynebedd cymharol fychan corydd y Camargue a'r Delta. Honnir fod yr afon wreiddiol wedi ei thagu ei hun â thywod a graian, a'r dŵr wedi ei orfodi i ganfod llwybrau newydd. Cynorthwywyd y broses gan bobl oedd, yr adeg honno, yn awyddus i arwain dŵr croyw i diroedd a oedd yn or-hallt oherwydd gorlifiadau aml y môr. O ganlyniad i'r gyfaddawd yma dechreuwyd tyfu reis yno, gweithgaredd sydd, ynghyd â chloddio halen, wedi cyfrannu fwyaf tuag at newid tirlun y Camargue.

Yn hanesyddol ddylwn, mae 'na dystiolaeth fod y dyn cyntefig wedi goroesi yn y Camargue, ac mae 'na weddillion sydd yn rhoi dystiolaeth lawer mwy pendant fod y Groegiaid wedi bod yno, a'r Rhufeiniaid ar eu hôl hwy, ac yn y cyfnod hwnnw yr oedd yno hyd yn oed feysydd ŷd. Yn ddiweddarach, denodd tawelwch y fro y Cisteriaid, a sefydlodd fynachlogydd, a dechreuasant fasnachu'r 'aur gwyn', arall-eiriad lleol am yr halen sydd erbyn hyn yn cael ei gloddio yn ddiwydiannol yn Salin-de-Giraud ar ochr

ddwyreiniol y corydd. Y myneich hyn, os gwir y gair, wrth geisio diogelu eu tiriogaeth rhag arloeswyr, a ddaethant yn ddifwriad i fod yn warchodwyr cyntaf bywyd gwyllt yr ardal.

Ond doedd y wybodaeth yma o fawr fudd i ni ar y pryd wrth geisio cludiant i Saint-Maries-de-la-Mer yng ngheg y Rhone Fechan, gan fod y drafndiaeth yn brin. Cawsom fynd ar gerbyd cyhoeddus yn y diwedd ac yr oedd ein cyddeithwyr yn gymysgfa dawedog iawn. Deëllais wedyn fod y trigolion yn tueddu i fod fel hyn oherwydd natur eu bywyd unig ar y corydd anghysbell. Ac fel ategiad i hynny, yr oeddynt yn disgyn o'r cerbyd yn y mannau mwyaf diarffordd, heb dŷ na thwlc ar y cyfyl. O bellter weithiau roedd adeiladau ar ffurf ffermdai i'w gweld, wedi eu hamgylchynnu â choed a'r du'r Mistral. Yn y rhain yr oedd y manadiers yn trigo: y rhai oedd yn dal yn wydn wrth yr hen draddodiad o fridio a chadw y teirw bychain gwyllt a'r ceffylau gwynion sydd yn frodorol yn y Camargue. Ar gyfer y gwaith yma yr oeddent yn cyflogi nifer o warchodwyr ar feirch fel cowbois, i edrych ar ôl yr anifeiliaid. Roedd y dynion yma yn cario tryfer ar goes hir, ac yr oedd rhai ohonynt, yr adeg honno, yn byw allan ar y paith hefo'u gofalon, mewn cabannau o hesg, a rheiny, o bell, yn edrych fel cychod a'u hwyneb i waered.

Ar ôl sicrhau llety yn St. Maries, roeddem yn llon obeithio gallu troedio ar draws gwlad i weld y tirlun a'i ryfeddodau — mae modd llogi ceffyl neu feic yn ystod tymor

y gwyliau — ond daethom yn fuan i ganfod mai gwaith llafurus yw cerdded ar hyd llwybrau o fân dywod yn nannedd y gwynt oer. Y llestair yn yr haf wrth gwrs, ar wahân i'r miloedd ymwelwyr, yw gwybed y moscito a'r tês, ac mae yno lecyddau fel yr Étang-de-Vacarrès a lagwnnau heilltion eraill sydd yn waharddedig i bawb ond naturiaethwyr trwyddedig. Yn y mannau hyn mae'r fflamingo pinc yn bwydo a nythu, a gwelsom rai ar eu ehediad. Yn y cyfamser fodd bynnag roedd ansawdd y dref a'i hadeiladau yn ddigon i ddenu ein diddordeb.

Mae St. Maries yn ei ffurf bresennol wedi datblygu o hen gaer Roegaidd, a'i phrif nodwedd yw'r eglwys gaerog sydd wedi ei chysegru i Santa Sara. Mae'r chwedloniaeth ynglŷn â sefydlu'r adeilad yn amrywio, ond yr hanesyn a dderbynir gan amlaf yw'r un am y ddwy Fair — Magdalen a Mam yr Iesu — a'u llaw-forwyn Sara.

Ar ôl y croeshoeliad, ymlidiwyd y tair o Balesteina, a gorfodwyd hwy i ddianc mewn cwch ar draws Môr y Canoldir i Dduw a wyddai ble. Darfu iddynt o'r diwedd laniio yn y fan yma, ac fel aberth o ddiolchgarwch am eu gwaredigaeth, penderfynasant sefydlu eglwys ar yr union fan. Heddiw mae delwau o'r tair yn gorffwys ar yr allor yn y crypt, ac am ryw reswm mae delw Sara yn ddu, wedi ei gerfio allan o dalp o lo.

Mae yna Sipsiwn wedi trigo yn y Camargue ers tro byd, a phan ddenwyd y rhain at y ffydd Babyddol, dechreuasant gymysgu credoau'r grefydd honno â'u mympwyon a'u hofergoelion eu hunain. O ganlyniad, darfu iddynt fabwysiadu Sara yn nawddsant, a sefydlasant ŵyl o gwmpas ei delw a'i hanes. Mae'r ŵyl yma yn syrthio ym mis Mai, a bydd y Sipsiwn, yn fyd-eang, yn heidio i Camargue i gynnal corobori, yn ystod pa un y bydd y llwythau'n cwrdd mewn dawns a gwledd i atgyfnerthu cysylltiadau teuluol.

Ond uchafbwynt yr ŵyl yw seremoni trochi'r delwau yn y môr. Ar ôl talu gwrogaeth iddynt yn y crypt a chynnig iddynt offrymau o

arian a dillad, bydd yr addolwyr yn eu cludo ar garfil mewn gorymdaith liwgar, yn cael ei blaenori gan farchogion ar geffylau gwynion, i lan y môr, lle bydd tyrfa wedi ymgasglu i weld y trochiad yn y tonnau. Dychwelir y delwau wedyn i'r eglwys am flwyddyn arall, ar ôl iddynt sicrhau ffyniant a bendith i'w haddolwyr. Dywedir mai hon yw'r unig ŵyl Romanaidd lle y caniateir i'r giorgio* fod yn rhan ohoni.

Mae'r gemaes deirw yn yr un dref, ar y llaw arall, yn cael ei defnyddio at weithgareddau pur wahanol.

Mae teirw duon y Camargue yn cael eu meithrin ar gyfer yr arena, ond nid er mwyn ymladdfeydd yn terfynnu yn farwol fel corridau Sbaen. Mae'r dynion yn gwynebu'r tarw cyrn cam heb arfau, a'r amcan ydyw cipio cocarde (roset) oddi ar gorn y tarw a dianc yn ddianaf. Dynion ieuainc heinyf ydyw'r rhain wrth gwrs, a'r chwimaf ei sodlau yw'r iachaf ei groen.

Mae yno hefyd wrth gwrs faes toreithiog i'r rhai sydd yn gwylio adar ac yn astudio tyfiant gwyllt. Y goeden frodorol yw'r tamarind, a defnyddir y coedyn yn helaeth fel tanwydd. Yno hefyd mae'r Asphodel, y Lili Wen a'r Chamomile, ac o gwmpas y lagwnnau mae'r mor-hesg yn tyfu yn uchel. Ac ar gyrrau'r Vaccarès mae yna dir corsio wedi ei ynysu

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Gwesty
Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

a elwir yn Bois, ac yno mae'r baeddod gwyllt yn cyfrin drigo.

Daethom ar draws teulu bach o Sipsiwn sefydlog ger y parthau hyn. Yr oeddynt wedi meddiannu caban hesg a adawyd yn hanner adfail gan y gwarchodwyr. Yn yr haf roedd y plant a'r fam yn hel blodau a'u trefnu ar gyfer eu gwerthu, ac yr oeddynt yn plethu basgedi hesg a nwyddau cyffelyb. Roedd y tad yn pysgota, ac ar brydiau yn y tymor yn gweithio yn gyffredinol yn y cylch teirw. Dywedodd fel yr oedd yr awdurdodau cadwraeth unwaith — er budd yr ymwelwyr — wedi ceisio difa'r moscito drwy chwistrellu gwenwyn i'w nythleoedd hefo hofrennyddion. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiant i raddau, ond roedd adar a phlanhigion hefyd wedi teimlo ei effaith, a chan fod y gwenwyn yma wedi treiddio i ddŵr y lagwnnau, roedd y pysgod hefyd yn dioddef.

Mae yna filoedd o hwyaid hefyd yn dod i fwydo i'r étangs a'r corysdd, ac fe ganiateir i helwyr eu medi â gynnu. Yn ôl un ddadl, mae'n rhaid teneuo eu rhif; heb hynny, nis gall yr ardal eu cynnal i gyd mewn bwyd. Mae eraill yn taeru i'r gwrthwyneb wrth gwrs. Fy marn bersonol i oedd — os oes gwerth ar honno ar ôl ymweliad mor fyr — fod y Camargue, fel Parc Eryri, yn fwy o barc pan oedd o ddim!

Ond anghofiais am hynny wrth ddod yn ôl i Arles ar draws y corysdd yn y gwyll. Gwelsom yr haul coch ar un gorwel a'r lleuad llawn ar y llall gyferbyn. Mae 'na lawer o ramant o hyd yn y Camargue.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Y Wladfa: Roedd yn braf gweld dwy o'r Wladfa yn aros gyda Bryn a Dilys Griffith, Delfryn yn ystod ymweliad Côr Ieuencid y Wladfa â Chymru.

Llinellau Melyn Dwbl: Bydd Isbwyllgor Traffig y Cyngor Sir yn ymweld â'r pentref am 11.15 ar fore dydd Iau, 8 Gorffennaf.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod y mis nesaf, am 2 y prynhawn:

30 Mehefin — John Roberts;

7 Gorffennaf — Iorwerth J Owen;

14 Gorffennaf — H Jones Parry;

21 Gorffennaf — E W Williams.

Ni fydd gwasanaeth yn y pentref ar 29 Gorffennaf nac yn ystod mis Awst.

Longyfarchiadau i Ceri Ann Roberts,



Manon Fflur — Llwyddiant Eisteddfodol arall.

10 Erw Wen, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; i Margo, Cefn Gof ar ei phriodas yn ddiweddar;



Ceri Ann Roberts, Buddugol yn Nhaf Elai.

i Glenda Williams, Tremallt, ar ei dyweddïad;
i John Pritchard, 8 Bryn y Gof ar ei ben-blwydd yn 21 oed.

Yr Enfys Gron a'i Chyswllt ag Eryri

"Rhyfeddod unigryw" yw gweld un.

'Beth?' holais yn betrusgar gan geisio dyfalu beth sy'n rhyfeddod a beth sydd heb fod yn rhyfeddod.

'Enfys gron,' oedd yr ateb.

Rhaid cyfaddef fod ffenomenon o'r fath yn ddieithr imi. Ffurf bwa sydd i enfys yn wastad, clywais fy hunan yn sibrd. A dyna wenu.

'Enfys gron? Tynnu coes 'rwyd ti?'

Ond roedd yr olwg ar wyneb y siaradwr yn dweud fel arall.

Dywedir bod cofnodion ar gael o'r enfys gron yn digwydd yn Eryri yn y blynyddoedd 1874-5, 1883, 1887 ac 1891. Ym 1883 dywed Dr. Fleming (ac nid tad yr arwr Seisnig o fyd ysbwyr sef Iago Bond mo hwn) ac Mr Howard Barrett iddynt weld enfys gron yn taflunio'i ffurf ar gaddug a oedd yn

symud dros ochr ddwyrain-ogleddol Llyn Idwal yn Eryri. Yng nghanol y cylch, ymddangosodd cysgod y grib yr oeddynt yn sefyll arno, ac yna ymddangosodd eu cysgodion hwythau, a gwyddent i sicrwydd mai eu cysgodion hwynt a welwyd, gan eu bod ill dau wedi dechrau chwifio'u breichiau yn wyllt, a bod y cysgodion wedi gwneud yn union 'run peth. Yna ymddangosodd ail-gylch i amgylchynu'r cylch cyntaf. Tystiolaeth o'r flwyddyn 1883.

Yn llyfr H R C Carr a G A Lister *The Mountains of Snowdonia* (1925) ceir prawf ychwanegol o'r enfys gron yn Eryri, a chynhwysir ffotograff du a gwyn yn y gyfrol sy'n amlygu'r ffaith i'r Athro Kennedy Orton ac W E Williams fod yn llygad-dyst o'r ffenomenon ryfeddol a elwir enfys gron yn



Hen beth cas ydi'r 'Spring Clin' yma ynto, yn enwedig i ddyn. Cafodd un sy'n byw tua Coed y Glyn 'na broblem fawr yn ddiweddar. Roedd am beintio'r to wrth ben y grisau tra roedd ei wraig i ffwrdd am y dydd. Cafodd fenthgysgol, ond roedd yn rhy hir. Dim problem, allan a phrynu lli a llifio darn o'r ysgol i ffwrdd; ysgol fenthgysgol cofiwch!

Oni fasa'n rhatach iddo fo fod wedi torri twll yn y llawr i roi traed yr ysgol ynddo, dudwch!

Eryri. Gwelwyd yr enfys gron nepell o gopa'r Wyddfa yn hwyr y prynhawn.

Tybed beth yw profiad rhai o ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa*? A oes Cymry Cymraeg yn eich plith sy'n dystion? Ynteu ai rhyfeddod prin yw'r enfys gron yn Eryri.

Dafydd Guto



ERYRI ORGANIG

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtailith ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:

Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD

43 Glanffynnon
LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Tan-y-coed: Wedi gwyliau'r Sulgwyn, mynychodd plant Safon 3 a 4 gwrs preswyl am wythnos yng Nglynllifon. Er bod pob un wedi dychwelyd yn flinedig, ymddengys eu bod wedi cael pleser a hwyl yn ystod yr wythnos ac wedi mwynhau lluo brofiadau cyfoethog.

Siomedig fu'r tywydd yn ddiweddar, ac o ganlyniad bu'n rhaid gohirio sawl cyfarfod o'r Cynllun Cyswllt Chwaraeon ym Mrynrefail. Serch hynny, cafodd y plant hyn gyfle i dreulio diwrnod arall yn eu darpar Ysgol Uwchradd. Fe aeth Cathryn a Gwenllian i Gaernarfon i dreulio prynhawn yn Ysgol Syr Hugh Owen cyn trosglwyddo yno ym mis Medi.

Gan obeithio y bydd tywydd gwell, fe fydd gwibdaith yr ysgol yn mynd i Barc Safari Knowsley, ddydd lau, Mehefin 27. Diolchir i'r rhieni am eu cyfraniadau er ysgafnhau y baich ar yr ysgol.

Fe fydd y plant yn ymuno yng ngweithgareddau'r Carnifal, trwy gymryd rhan yn y Gymanfa nos Sul ac yn y Chwaraeon ar y nos Lun. Trefnir gêm bêl-droed i'r bechgyn a gêm mini-hoc i'r genethod.

Carnifal y Pentref: Cynhelir y Carnifal eleni o 7-13 o Orffennaf. Cynhelir Cymanfa Ganu, nos Sul Gorffennaf 7 yn Eglwys Santes Helen, gyda Arwel Jones yn arwain a Bryn Griffith wrth yr organ. Gwneir casgliad. Cymerir rhan gan blant y pentref.

Nos Lun Noson o Chwaraeon i'r plant yng ngofal R Humphreys. **Nos Fercher** Bingo yn Neuadd yr Eglwys. **Pnawn Sadwrn** Y Carnifal i gychwyn o'r Cae Chwarae.

Bydd rhaglenni ar werth, a gwerthir tocynnau raffl a lluniaeth ysgafn yn ystod y gweithgareddau. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl.

Adran Bentreff yr Urdd: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y gost o gludo aelodau'r Urdd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhaf Elai. Diolch yn arbennig i'r rhai fu'n eu hyfforddi. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain i'r eithaf.

Eisteddfod Bentreff: Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Mehefin 28 am 5.30pm, yn Neuadd yr Eglwys. Mae'r plant wrthi'n brysur yn gwerthu tocynnau. Dewch yn lluo i gefnogi ein hymdrechion.

Pob bendith: Dymunir pob bendith a hapusrwydd i Susan a Tony Maxwell ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Alwyn a Jen Hughes, Algen, ar enedigaeth eu mab bychan, Llŷr Alwyn, brawd bach i Luke. Diolchir i bawb am y lluo cardiau a'r anrhegion.

Llongyfarchiadau: Pob bendith i Rhian Price Williams, Cae'r Bythod ar gyrraedd ei 21ain oed.

Llongyfarchiadau mawr i Sharon Owen ar ei llwyddiant yn ei arholiadau B.Addysg yn y Coleg Normal a dymunir pob lwc iddi yn ei swydd fel athrawes yn un o ysgolion Gwynedd.

Profedigaeth: Ein cydymdeimlad llwyrfa â Mr Dafydd L Roberts a'r teulu, Pen Dinas Mawr, wedi marwolaeth sydyn ei fam yng Nghaernarfon.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant Mai yn Sycharth a'r enillwyr oedd: 1. Glenys Williams, Trem Cynfi; 2. Rosie Jones, Blodfa, Penygroes; 3. Eluned Porter, 7 Llys y Gwynt.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd 1. Elinor Jones, Gwyrfa; 2. J Clark, 13 y Ddôl, Bethel; 3. Madge, Ysbyty Gwynedd.

Y Carnifal fydd y gweithgaredd nesaf.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Huw Williams. Rydym i gyd yn cofio atoch Huw. Rwy'n siwr y byddwch yn falch o wybod fod yr Ysgol a'r Neuadd Gymunedol yn prysur fynd i fyny, er gwaethaf y mis Mehefin gwlyb yma.

Gwellhad: Gobeithio fod pawb sydd wedi bod yn sâl yn gwella er gwaethaf y tywydd difrifol yma. 'Fe ddaw haul ar fryn ar ôl hyn eto.'

Rydym yn hynod falch o ddeall fod Mrs Percy Williams yn ôl yn 3 Llys y Gwynt. Ein cofion annwylaf atoch Mrs Williams.

Trip yr Ysgol Sul: Cofiwch fod Trip yr Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyl, Sadwrn, Gorffennaf 6ed. **Oedolion £3.50; Plant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul: £1.50.** Bydd y bws yn cychwyn o King am 9.30 yn brydlon. Bydd Trip Ysgol Sul St. Helen yn mynd i Butlins Pwllheli ar Orffennaf 27.

Llwyddiant: Llongyfarchiadau i Dafydd Jones, Pant Hywel ar ennill gradd BSc gydag Anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Mary Davies ar

golli ei chwaer yng nghyfraith ym Manceinin.

Diolch: Dymuna Mr Evan Jones, 3 Bryn Tirion a'r teulu oll ddiolch i'r Meddyg Teulu a meddygon a nyrsus Ysbyty Gwynedd ac Eryri am eu gofal tyner o'u diweddar chwaer, Mrs Jennie May Jones. Diolch hefyd am

bob arwydd o gydymdeimlad.

Croeso: Croeso cynnes i Stephen a Susan a'u mab bychan, Dylan, sydd wedi ymgartrefu yn 18 Bryn Tirion. Bydd yr Eco nesaf yn cael ei blygu ym Mhenisarwaun, nos lau, Awst 29. Dewch yn lluo.

Plant yr Ysgol Feithrin



Plant bach Ysgol Feithrin Penisarwaun yn ystod eu Prynhawn Agored, 19 Mehefin, pan fuont yn adrodd hwiangerddi i ddathlu Gŵyl Genedlaethol y Mudiad, 'Cymru a Lesotho'.

**Dysg ni i barchu, O, ein Duw,
Dy greadigaeth Di,
Y coed a'r blodau o bob lliw,
Sy'n harddu'n daear ni.**

**Dysg ni i gofio, O, ein Duw,
Holl wersi'r Addfwyn Oen,
Am blant y byd sydd heddiw'n byw
Yng nghysgod ofn a phoen.**

**Dysg ni i faddau, O, ein Duw,
I'n gilydd heb wahân,
Er mwyn i deulu dyn gael byw
Yn heddw'r Ysbryd Glân.**

**Dysg i ni eto, O, ein Duw,
Oedolion oll a phlant,
Yr oll o'n hoes i gadw'n fyw
Ddysgeidiaeth Dewi Sant**

Idwal Edwards, Bontnewydd.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Ysgol Feithrin: Ar fore Mercher, Mehefin 19, daeth plant yr Ysgol Feithrin at ei gilydd i ganu 10 o hwiangerddi Cymraeg ac un gân yn Lesotheg, rhan o weithredoedd wythnos yr Ŵyl Feithrin. Noddwyd y plant, a bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng y cylch meithrin a gwlad Lesotho er mwyn darparu addysg feithrin yn y wlad honno.

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r fenter. Diolch i Anti Annette am gyfeilio i'r plant ac i'r athrawon am eu hyfforddi ac am wneud y 'props' — hetiau Lesotho a baneri. Mi fydd siawns arall i weld a chlywed y plant yn ystod wythnos y Carnifal. Digon o sioe.

Ysgol Gwaun Gynfi: Cymerodd wyth o blant — 4 merch a 4 bachgen — ran yng Ngala Nofio'r Ysgolion Cynradd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar Fai 24. Yr un diwrnod aeth pump o hogia a phum geneth i ffilmio ar gyfer teledu i Lanberis. Wedi gwyliau'r Sulgwyn dychwelodd Mr Gwynfryn Jones, Dirprwy Bennaeth yr ysgol ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Lerpwl. Balch oeddym o'i gael yn ôl a gobeithio y caiff adferiad llwyr.

Ciwb 100: 9: Mrs Olwen Williams, Maldwyn House (131); 4 Mrs Gwenda Hughes, Bontnewydd (8); 3: Mr John Thomas, 79 Pentre Helen (52).

Cynhelir Barbeciw, wedi ei drefnu gan Gymdeithas Rhieni'r ysgol am 6.30 nos Fawrth, Gorffennaf 16 ar iard yr ysgol. Croeso i bawb.

Pwyllgor Carnifal: Cafwyd disgo llwyddiannus dros ben nos Wener, 7fed Mehefin. Dyma restr o enillwyr y raffl: Cyw iar—

Pat, Rhydfadog; Lamp—Christine Jones; Pork—Dick Lewis; Gwin—Violet; Gwin—Dave Woods; Siocled—Dylan Foel; Toweli—Dilys Williams; Siocled—Derek.

Diolch yn fawr i bawb a fu'n ymwneud â threfnu'r disco.

Y Carnifal: Gorffennaf 2—6.

Nos Fawrth: Disgo 6-8 plant iau; 8-10 plant hŷn; Nos Fercher: Cyngerdd Coroni, 6 o'r gloch.

Nos Iau—Ras Hwyl.

Nos Wener: Bingo (plant) 6 o'r gloch. Dydd Sadwrn: Carnifal am 1 o'r gloch o Rhydfadog i lard yr ysgol. Yr orymdaith i'w harwain gan Seindorf Arian Deiniolen. Y Frenhines Mair a'i chwrt. Gwisgoedd Ffansi. Arddangosfa Dawnsio gan Kelly.

Llongyfarchiadau i Lyundsey Vaughan ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar. 1af Unawd 12-15; 1af Deuawd; 1af

Deuawd Cardd-dant; 3ydd Adrodd 12-15.

Merched y Wawr: Cafwyd y cyfarfod blynyddol ar Fehefin 17 gyda Mrs Nan Jones yn cyfrif y pleidleisiau. Rhoddodd Mrs Eirlys Williams adroddiad o Bwyllgor yr Anabl a gwybodaeth ynglŷn â sut y dosbarthwyd yr arian a godwyd. Bydd y Trip yn mynd i Nant Gwrtheyrn ar nos Wener, 26 Gorffennaf. Os oes unrhyw â diddordeb mewn dod ar y trip cysyllter â Mrs Betty Davies, 82 Pentre Helen. Llongyfarchwyd dwy o'r aelodau ar eu penodi yn Wardeniaid Eglwys Llandinorwig, sef Mrs Eurwen Roberts a Mrs Jennie Williams.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Mehefin 3 cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan a chafwyd noson ddifyr yng nghwmni Miss Jean Moller, yn rhoi hanes ei gwyliau yn Romania, hefyd dangosodd ffilmiau. Diolchwyd iddi gan Miss Betty Williams. Roedd hefyd yn noson Moes a Phryn dan ofal Mrs H J Thomas. Rhoddwyd y te gan Miss Betty Williams a Mrs Marian Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs B W Davies. Bydd Trip y Sefydliad, Taith Ddirgel, ar Orffennaf 5.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 2. Bydd hefyd yn noson Moes a Phryn.

Diolch: Dymuna Mr John Williams ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl garedigrwydd, y cardiau a'r pres a derbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd a Bryn Seiont. Diolch hefyd i staff y ddwy ysbyty, a diolch am bob cymwynas.



Llongyfarchiadau i Euros ar ei fuddugoliaeth yn Nhaf Elai yn y gystadleuaeth Unawd Pres 12-15 oed.

I Hafle, Rhes y Faenol Daeth enwogrwydd cenedlaethol, Euros, mab Ieuanaf Alwyn a Valmai Yn ennill yn Eisteddfod yr Urdd Taf Elai.

Yn aml y rhai olaf sy'n cael y blaen, Dyna heddiw wireddwyd ar y llwyfan, Heb amheuaeth ac heb ddim os Y gorau o ddigon oedd Euros.

Ei gampwaith nid yw'n syndod, A'i yrfa hyd yma sy'n hynod, Gwobrwyer ymhellach ei fawr ymroddiad A'i hyfforddwy'r gwerthfawr eu cyfraniad.

Aelod ifanc gwerthfawr o Seindorf enwog Deiniolen Llongyfarchwn ef yn llawen, Gwyddom am dalent wych ei frawd Iwan, Amlwg yw y bydd Euros yn ei ddilyn yn fuan.

H.J.



Priodas: Ar Fai 25 priodwyd Irene Williams a Dave Patterson yn Eglwys St Joseph, Bryste. Hoffai'r ddau ddiolch am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant. Byddant yn ymgartrefu ym Mryste.

Diolch: Dymuna Euros, Hafle, Rhes Faenol ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am fod mor garedig wrtho ar ôl ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Diolch arbennig i Mr Dafydd Wyn Jones, Rhydfadog, am ei hyfforddi.

Dysg ni i barchu, O, ein Duw
Dy greadigaeth Di,
Y coed a'r blodau o bob lliw
Sy'n harddu'n daear ni.

Dysg ni i gofio, O, ein Duw
Holl wersi'r Addfwyn Owen
Am blant y byd, sydd heddiw'n byw
Yng nghysgod ofn a phoen.

Dysg ni i faddau, O, ein Duw
I'n gilydd heb wahan,
Er mwyn i deulu dyn gael byw
Yn Hedd yr Ysbryd Glân.

Dysg i ni eto, O, ein Duw,
Oedolion oll a Phlant,
Yr oll o'n hoes i gadw'n fyw
Ddysgeidiaeth Dewi Sant.

Idwal Edwards, Bontnewydd

Fel gwarchodion yn Dy winllan,
Arglwydd grasol, rhoddaist ni,
Byth i barchu Dy fendithion
Ac i weithio drosot Ti.
Dryllia'r hunanoldeb ynom,
Tro'n wynebau tua'r Ne,
Nes y teimlwn rin Dy gariad
Yn ein calon yn cael lle.

O'th haelioni rhoddaist inni
Fyd o lawnder i'w fwynhau,
Ninnau blygwn yn ein balchder
'Wrth allorau duwiau gau'.
Boed i deulu dyn o'i wirfodd
Rannu dy fendithion Di
Fel na welwn ingoedd newyn
Mwyach ar ein daear ni.

Idwal Edwards, Bontnewydd

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CEIR ELIDIR


LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Priodas: Yn fuan ar ôl i ni gefnu ar wyl bregethu flynyddol Sardis (B) a gynhelir ar y Sulgwyn — a nifer ohonom yn ystyried fod yr wyl arbennig hon yn disgyn yn gynnar ar y flwyddyn eleni — fe gafwyd priodas liwgar iawn yn y capel a'n cyn-weinidog, y Parch Ifor Lloyd Williams BA, yn gweinyddu. Un o ferched ifanc Sardis a fu'n ddisgybl yn yr Ysgol Sul yma nes i waith ei chludo i gylch arall. Merch ieuengaf Mr a Mrs Abram Jones, Foelgron, felly a unwyd mewn glân briodas â Mr John Glyn Morris, un o feibion Mr a Mrs G O Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaen. Roedd y plant oedd yn gysylltiedig â'r teuluoedd wedi eu gwisgo yn bur lliwgar a da oedd gweld heulwen dderbyniol yn llonni'r cyfan. Yn naturiol ar achlysur fel hyn ehed ein meddyliau yn ôl i'r briodas enwog yng Nghanna Galilea. Erbyn y diwrnod dilynol roedd newid drammatig yn y tywydd. Yn dilyn cyfnod o sychder fe ddaeth gwynt a glaw. Prin y gallem, gredu bod posibilrwydd i'r newid fod mor sydyn. Roeddem yn diolch ei bod hi mor ddymunol i'r briodas, er i'r gwynt barhau'n ddigon oer. Efallai bod ei chael hi'n braf i dynnu lluniau yn destun diolch. Hyfryd oedd gweld plant Dinorwig yn ôl yn eu hen gynefin. Priodasau ac angladdau sy'n dod a theuluoedd at ei gilydd. Sylweddolwn bod y llon a'r lleddf ysywaeth mewn bywyd.

Adeilad Newydd: Ni allwn lai na sylwi ar rhyw anghenfil o adeilad sydd i'w weld ar diriogaeth hen chwarel Glynrhonwy. Cyfaill o Ddeiniolen oedd yn ein hannog i brotestio yn ei gylch, ac oni chlywsom Dywysog Cymru yn hallt iawn ei feirniadaeth o gynlluniau arch-adeiladwyr ein cyfnod, sy'n datgelu diffyg chwaeth echrydus a chefnu ar draddodiad y gorffennol.

Y Gwyliau: Mae tymor y gwyliau blynyddol yn agosau a rhieni yn treulio ychydig seibiant mewn ardaloedd eraill, er rhoddi awyrgylch ac amgylchedd gwahanol i'w plant. Mae newid, medd rhywun, gystal â gorffwys, ac yn rhoddi cyfle i atgyfnerthu. Fe aiff ein meddyliau ninnau'n ôl i gyfnod gwyliau ysgol — er i hynny fod yn bell, bell yn ôl bellach. Tybed ai ein hoedran ni sy'n gwneud i ni feddwl mai mis Ionawr yw a'i bod hi yn fwy tesog ddyddiau

maith yn ôl? Cyfnod oedd hwnnw pan oedd y gwres llethol yn rhwystri ni gysgu'r nos. Roedd misoedd Mehefin a Gorffennaf yn eithriadol yn hynny o beth. Gofynnwn yn bryderus mewn difrif calon beth sydd wedi digwydd i'r tywydd eleni, ac eto fe ddywed rhai wrthym i ni gael tywydd fel hyn yr adeg hon o'r flwyddyn o'r blaen a ninnau bron yn methu a'u coelio. Mae'n wir i ni gael tywydd mwy hyfryd yn gynharach ar y tymor a hynny'n cymell rhai i ddweud ein bod wedi cael ein haf yn rhy gynnar yn y gwanwyn. Mae hyn yn dwyn i gof y gân boblogaidd o'r dyddiau a fu sef 'O na byddai'n haf o hyd'. A gawn ni atgoffa ein hunain o'r geiriau 'haf goleulan yn tywynnu/adar mân y coed yn canu.' eto fe allwn dystio nad ydyw'r gog hyd yma wedi distewi, ac mae ei deunod i'w glywed o hyd.

Y Byd a'i Ben i Lawr: Fe fu nith i'm diweddar wraig o amgylch beth amser yn ôl a hyfryd oedd cael sgwrs gyda hi. Yn Kettering y mae hi'n byw ac fe fu'n treulio ychydig seibiant yng nghwmni ei merch a'i mab yng nghyfraith yn Aberdyfi, hwythau hefyd yn byw yn Kettering. Roedd yn fwy dewisol gan ei gŵr aros adref yn Kettering a chadw ei lygaid ar agor oherwydd fandaliaeth y bobl ieuanc. Ni chaiff capel nac eglwys barch gan rai o'r bobl ifanc y dyddiau hyn. Ni ddysgwyr iddynt, neu ni fynant wybod, bod peri difrod yn drosedd anesgusodol. Fe feuir athrawon ysgol a rhieni am y diffyg arweiniad ond fe berthynant i fyd sydd wedi ymadael â phopeth sydd o werth a chredant fod cyflawni troseddau yn beth i'w edmygu. Fe welsom ddigwyddiadau cyn hyn, ac fe ddichon y ceir diwygiadau unwaith yn rhagor cyn gwelir y byd yn dod i'w le.

Mae pob rhan o'r byd mewn rhyw fath o wewyr y dyddiau hyn. Rwsia fel pe'n ymwrthod â Chomiwnyddiaeth; yr Almaen a gwledydd Ewrop yn ymgeisio am drefn wahanol; India yn colli ei ffordd yn y pethau oedd bwysig ganddi o'r blaen, ac ni raid ond enwi China ac Abysinia ac fe sylweddolwn mor drychinebus yw pethau. Pobl dduon yn amau bwriadau'r bobl wyn; pobl yng nghysgod yr Himalaya yn drwgdybio eu cydmogion agosaf, ac eto fe ddarllenwn yn ein Beibl bod dynoliaeth yn aeddfed i'r cynhaeaf.

Gofynnwn yn ddifrifol o be le y daw gwaredigaeth? Ac o ystyried De Affrica nid oes raid ond enwi Winnie a Nelson Mandela.

Cofion: Nid yw'r newyddion yn galonogol iawn am Mrs Katie Griffiths, Maes Hyfryd, ac mae cyflwr Mrs Dora Jones hefyd yn peri pryder — y ddwy'n gymdogion.

Er ceisio newid cyweirnod fe ddylid hysbysu bod Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian yn dymuno diolch i'w theulu, cymdogion a'i chyfeillion oll am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Hefyd mae'n diolch i staff Ward Ogwen. Dyma un a ddiolch i bawb a'i cynorthwyodd.

Hwyl Haf: Mae'r trefniadau yn mynd o nerth i nerth tuag at gynnal 'Hwyl Haf' yn Allt Ddu eto eleni. Bydd y cyfan yn digwydd ar **brynhawn dydd Sadwrn, Gorffennaf 13 o 1.30 ymlaen**. Bydd y tâl mynediad yn 50c i Oedolion (gyda thocyn raffl yn gynnwysiedig yn y pris hwn) a 20c i blant. Bydd yr un atyniadau arferol fel gemau a stondinau o bob math ac am y tro cyntaf eleni bydd Castell Neidio ar gyfer y plant iau. Felly dylai fod yn brynhawn delfrydol i bawb o bob oed. O safbwynt gwerthu nwyddau ar y stondinau gwneir apêl ar i bawb sydd yn barod i gynnig defnyddiau ar gyfer eu gwerthu, h.y. cacennau, planhigion, tuniau bwyd (dim dillad) ac ati ddod a hwy i'r Ganolfan **nos Iau, Gorffennaf 11 rhwng 6.00 a 8.00**. Rydym wedi cael cefnogaeth dda yn hyn o beth yn y gorffennol ac mae'r pwyllgor yn hyderus y bydd pobl dda Dinorwig yr un mor barod eu cymwynas eto eleni. Os nad ydych yn gallu dod i'r Ganolfan ar y noson honno yna bydd unrhyw aelod o'r pwyllgor yn falch o'u derbyn gennych. Hefyd, fel arfer, bydd cystadleuaeth Gwisg Ffansi i bawb o bob oed. Os ydych am gystadlu gofynnir i bawb wisgo fel un o gymeriadau y byd teledu. Mae hon yn gystadleuaeth boblogaidd bob blwyddyn. Felly pawb i wisgo i fyny. Dewch am awr neu ddwy ymuno yn yr hwyl, cwrdd a hwn a'r llall a chael paned neu hufen ia wrth wneud hynny. Fel arfer, croeso i bawb ymuno yn yr hwyl. Gwelwn chi yno.

Eglwys St Mair: Cynhaliwyd Gŵyl Bregethu hynod o lwyddiannus ar 16 o Fehefin. Rhoddodd y Parch Tegid Roberts gychwyn safonol arferol i'r wyl mewn gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 10 y bore. Yna am 3.45 cafwyd pregeth ag iddi neges amserol a phwysig iawn gan y Parch Ganon Richard Owen, Bangor. Braff

oedd gweld cyfeillion o Gapel Dinorwig a Sardis yn bresennol ac yn cyfrannu tuag at sicrhau gwasanaeth teilwng a bendithiol dros ben. Yn sicr os ydym am ymateb yn hyderus i'r her a'r sialens y soniodd y pregethwr gwadd amdani yn ei bregeth yna byddai cynnal ambell i wasanaeth cyd-enwadol yn un ffordd bositif iawn o wneud hynny. Melys moes mwy. O safbwynt gwasanaethau mis Gorffennaf cedwir at y drefn arferol o gynnal Gwasanaethau y Gosber ar y Sul cyntaf a'r olaf am 3.45, tra ar y Sul cyntaf cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 3.45 a Chymun Teuluol ar fore y trydydd Sul am 10.00. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau hyn.

Diolch: Dymuna Mai, Bryngwyn a'r teulu, 16 Bro Rhiwen, Rhiwlas ddiolch am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont a chronfa nyrsus ardal Rhiwlas.

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Llandudno.

HWYL HAF '91

Pnawn Sadwrn, Gorffennaf 13 o 1.30 ymlaen

Allt Ddu, Dinorwig
Stondinau, Gemau,

Cystadleuaeth Gwisg Ffansi a llawer mwy...

CROESO CYNNES I BAWB

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Priodas: Dydd Sadwrn, Mehefin 8 yng Nghapel MC Ceunant, priodwyd Gwenno Mererid, merch Evan a Helen Parry, Morwel â Keith, mab Fred a Jean Doyle, Cilgwan, Bethesda. Gweinyddwyd gan y Parch John Morris a'r organyddes oedd Mrs Eirlys Ellis. Y morynion oedd Einir Parri (chwaer y briodferch) a Linda Doyle (chwaer y priodfab). Y gwas oedd Gwynfor Roberts (ffrid y priodfab). Cynhaliwyd y wledd briodas ynghyd â'r parti nos yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.

Aeth y pâr priod ar eu mis mêl i Tenarife. Byddant yn ymgartrefu ym Methesda.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Priodasau: Llongyfarchiadau i Janet Elizabeth Jones, merch Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian ar ei phriodas yn ddiweddar â Roderick Ellis Jones, 1 Maes Gwylfa, Deiniolen. Hefyd ein dymuniadau gorau i Jacqueline Wager, merch Mr a Mrs Colin Wager, y Llythyrdy, ar ei phriodas â Patrick Kyle.

O'r Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Miss B E Owen, 2 Tai Orwig sydd wedi dychwelyd gartref ar ôl triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu'r gymdeithas o Chwiorydd Eglwys MC Brynrefail, nos lau, Mehefin 13. Estynnwyd gair o groeso ar gychwyn y cyfarfod gan y llywydd, Mrs Jennie Angharad Roberts a rhoddodd adroddiad cryno o'i hymwelid â Sasiwn Chwiorydd y Gogledd a gynhaliwyd yng Nghroesoswallt ar Fai 2il. Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Mrs Euronwy Roberts, yn seiliedig ar ddetholiad o Lyfr y Salmau. Croesawodd y llywydd y gŵr gwadd am y noson, sef Mr Gwyn Hefin Jones a oedd wedi trefnu cwis ar gyfer yr aelodau. Cafodd tri thim hwyl arbennig yn profi eu gwybodaeth gyffredinol. Gofalwyd am y lluniaeth gan Mrs Carol Houston a Mrs Rhian Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 4ydd pryd y disgwylir Nan Wyn Jones o Goleg y Bala i annerch.

Ennill Gwyliau: O ganlyniad i'w ymgais yn y Gêm Monopoly ar S4C yn ddiweddar, bu Mr D C Thomas, Gorswen yn ffodus i ennill 500. Bydd yr arian yn ei alluogi ef a'i briod i fwynhau cyfnod o wyliau yn Gibraltar yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau a phob hwyl i'r ddau.

Hospis yn y Cartref: Bydd y Barbeciw i godi arian at Hospis yn y Cartref yn

cael ei gynnal nos Wener, Mehefin 28 ym muarth yr Ysgol Fach.

Sefydliad y Merched: Mwynhaodd nifer o aelodau'r Sefydliad brynhawn o weithgareddau awyr agored yng Nghanolfan Cwm Pennant ddydd Sadwrn, Mai 25 o dan hyfforddiant Steve ac Anita Long.

Roedd nos Lun, Mai 27 yn noson arbennig i'r Sefydliad yn y pentref pan ddathlwyd hanner can mlynedd cychwyn y mudiad ym Brynrefail. Llawnwydd oedd gweld yn bresennol yn y dathlu bedair o'r aelodau a oedd yn rhan o'r sefydlu yn 1941, sef Mrs Jennie Roberts, Caernarfon (Creigle gynt); Mrs Hannah J Jones, 7 Trem Eilian; Mrs Jennie Maxwell, Bro



Aelodau Cangen Brynrefail o Sefydliad y Merched



Swyddogion Lleol a Sirol y Sefydliad.

Dawel a Mrs Grace Ellen Pritchard, 1 Ffrwd Madog, ynghyd â nifer helaeth o'r aelodau presennol. Pleser hefyd oedd cael cwmni tair o Swyddogion Sirol Sefydliad y Merched, sef Mrs

Mair Harding Roberts (Llywydd); Miss Mair Jones (Trysorydd) a Mrs Rita Dauncey Williams (Ysgrifennydd). Croesawyd pawb i'r wledd helaeth a baratowyd gan

Lwydd y gangen, Mrs Pat Jones. Cafwyd gair pwrpasol gan y Llywydd Sirol a thalwyd diolch gan y Trysorydd Sirol. Mae ein diolch yn arbennig i Mrs Carol Houston am baratoi'r deisen flacus ar ffurf 50 i ddathlu'r amgylchiad ac i'r Ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen am y trefniadau ac i bawb fu'n cynorthwyo i'w gwneud yn noson gofiadwy.

Nos Lun, Mehefin 17 cyfarfu'r aelodau yn y Festri. Roedd y noson yng ngofal yr ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen, cynrychiolydd y gangen yng Nghyfarfod Cyffredinol Sefydliad y Merched yn Birmingham. Cafwyd adroddiad ganddi o'r gweithrediadau yn y cyfarfod. Gofalwyd am y lluniaeth gan Mrs Gwyneth Williams a Mrs Mai Davies.

Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Dwynwen Williams gan Mrs Jean Davies.

Bydd cyfarfod y mis nesaf ar ffurf Trip Dirgel a drefnir gan Mrs Carol Houston a Mrs Eleanor Williams. Bydd y Trip yn cychwyn am 6.30 o'r gloch nos Lun, Gorffennaf 15fed.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

Diolchiadau: Dymuna Mr H J Roberts a theulu'r ddiweddar Mrs Catherine Roberts, Tai Newyddion, Llanrug ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli gwraig, mam a nain annwyl.

Diolch yn arbennig i'r Parchedigion John Morris, W R Williams ac O G Williams am eu gwasanaeth yn yr angladd ac i'r Parch W O Roberts am ei deyrnedd.

Yr un modd i feddygon Waunfawr a Llanrug a gŵyr yr ambiwlans am eu hymdrechion a'u caredigrwydd. Hefyd i Mr E W Pritchard am y trefniadau urddasol, ac i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at Gronfa Offer Meddygfa Waunfawr a Llanrug, er cof am Katie.

Cydymdeimlwn â Mrs Jennie Hughes, Oerddwr a'i theulu ar farwolaeth ei mam, Mrs Blodwen Nightingale, merch y diweddar W J Humphries, o Bantafon Lodge gynt. **Llongyfarchiadau:** Yn Ninbych ar Fai 23ain anrhydeddwyd Miss M. A. Humphreys â'r Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Mae wedi gweithio gyda'r plant ar hyd y

blynyddoedd a hynny yn llwyddiannus iawn. Miss Humphreys yw'r gyntaf erioed o Gapel Tan-y-coed i gael y Fedal Gee. Pob bendith ar ei gwaith efo'r eglwys, ac wrth ei llongyfarch dymunwn iddi bob hapusrwydd ac iechyd yn y dyfodol.

CLWB ERYRI

Dydd Sadwrn, Mehefin 15 aeth aelodau Clwb Eryri ar eu gwibdaith flynyddol, y tro hwn i Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Yno cafwyd sgwrs ddiddan iawn gan yr hanesydd, Emyr Price, sy'n aelod o'r Clwb, ar gefndir y gwladweinydd. Yn ogystal cafwyd dwy ffilm fer ar ei yrfa. Trefnwyd y daith o gylch

Eifionydd gan Dr. Eurwyn Lloyd Evans a thalwyd y diolchiadau i'r ddau am eu cyfraniad gan Arfon Jones, Llywydd y tymor. Yn ystod y daith cyhoeddwyd mai Ifor Glyn Ifans, Deiniolen, fydd Ysgrifennydd newydd y Clwb yn dilyn Rol Williams, Waunfawr sydd yn rhoi gorau i'r gwaith wedi 36 o flynyddoedd. Ef hefyd fu'n gyfrifol am sefydlu'r Clwb yn 1955. Anrhegwyd Rol Williams â siec, fel cydnabyddiaeth o'i hir wasanaeth, gan Ieuan Ellis Jones, Trysorydd y Clwb. Llywydd y tymor nesaf fydd Selyf Hughes gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn Is-lywydd. Ail etholwyd y swyddogion eraill.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD




BANGOR
354646

Golff yn Nyffryn Peris

Does dim amheuaeth o gwbl nad yw'r gêm golff yma'n dod yn fwy poblogaidd bob dydd ym mro'r Eco. Mae ym mhob pentref bellach rhyw glwt o dir sydd wedi ei fabwysiadu fel llain ymarfer gan y plant, ac mae nifer o'r oedolion fyddai'n defnyddio caeau Ysgol Brynrefail i ymarfer eu sgiliau pêl-droed bellach yn cystadlu am y 'dreif' hiraf gyda'i 'seven irons', hynny ydi, os nad ydyn nhw'n chwarae rownd ar gwrs cyhoeddus naw twll Llangefni.

Mae dros 600 o aelodau yng nghlwb golff Caernarfon a'r rhestr ymaelodi wedi ei chau yn glep yn ôl bob hanes. Gresyn felly nad oes lle i'r dechreuwyr brwdfrydig yma gael gêm iawn heb orfod talu drwy eu trwynau, a hynny yn eu hardal eu hunain.

Rwy'n deall fod cynlluniau ar y gweill i adeiladu cwrs deunaw twll yn Llwyn Brain, neu Seiont Manor i roi ei enw posh i'r lle, ond rwy'n amau'n fawr os mai ar fy nghyfer i a'm tebyg y'i bwriedir, ac y bydd gofyn crogbris am gael chwarae arno. Gobeithio'n wir fod fy ofnau'n ddisail — cawn weld.



Mae tir Llwyn Brain yn ymylu ar dir Glan Rafon ym Mhontrug, ac yno'n ddiweddar fe agorwyd cwrs ymarfer chwarae golff, sef yn Saesneg, 'driving range'. Bu Mr John Green yn berchen y fferm ers 1984 ac mae wedi neilltuo llain rhyw 200 llath wrth 30, sydd â ffens uchel o'i chwmpas ar gyfer y rhai sydd eisiau talu 1.50 i gael taro 50 o beli, a choeliwch fi, mae'r rheini yn troi i fyny yn eu dwsinau bob dydd.

Mae'r golffiwr yn tanio o un o'r deg blwch sydd wedi eu hadeiladu, fel y gwelir yn y darluniau, yn sych a chlyd beth bynnag fo'r tywydd.

Mae yma gyfleusterau gwyh felly ar gyfer ymarfer, ond unman i chwarae. 'Sgwn i beth fyddai agwedd y pwyllgor cynllunio pe gwnaed cais i agor naw twll ar gyfer y werin yn Llanrug neu Llanberis, dyweder.



Yn sicr, byddai cryn ddefnydd ar gyfleuster o'r fath ac fe gredaf ei bod yn ddyletswydd arnom i hybu'r brwdfrydded newydd yma tuag at adloniant, sy'n amlwg yn apelio at ardalywyr o bob oed.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant neu fenthyciad o'r gronfa uchod.

Anfoner am y manylion a'r ffurflenni cais at: **Aled Owen**
13 Charlotte Street, Llanberis

DYDDIAD CAU: AWST 31AIN

Llwyddiant eto i Glwb Karate Llanrug



Sara Roberts, Meriel Wood a Gethin Jones, aelodau llwyddiannus Clwb Karate Llanrug.

Yn dilyn llwyddiant Clwb Llanrug ym Mhencampwriaethau Kokoro Karate a gynhaliwyd yn Waunfawr yn ddiweddar, gwahoddwyd nifer o'r aelodau i Ganolfan Dojo Ganolog yn y Rhyl. Yno, cafodd Meriel Wood, Gethin Jones a Sara Roberts gyfle i ymarfer yng nghwmni Pumed Dau — Sensei John Lynn. Roedd hyn yn gyfle iddynt gymryd rhan mewn nifer o wahanol ymarferion gan gynnwys gwaith padiau a ffug-ymladd.

Derbyniodd y tri ohonynt ddarlun arbennig i gofio'r achlysur. Bythefnos yn ddiweddarach, roedd yr un rhai yn llwyddo eto — y tro hwn mewn Cyfarfod Graddio yn Nhalybont ger Conwy. Enillodd Meriel farciau llawn am y trydydd graddiad yn olynol, gan rannu'r prif safle gyda Clifford Williams o Glynog.

Un marc yn fyr o neidio belt oedd Gethin Jones o Fethel, ond llwyddodd i Sara Roberts, Llanrug i wneud hynny; camp go arbennig. Bydd Sara yn mynd ymlaen rwan i ymarfer am felt gwyrdd yn hytrach na'r oren.

Mae Clwb Llanrug yn ymarfer yn rheolaidd yn Ysgol Brynrefail ac y mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno gysylltu â Gareth Edwards (C'fon 77219).

Chwaraeon Ysgol Brynrefail



Athletau

Dewiswyd y canlynol i gynrychioli Ysgolion Arfon ym Mhencampwriaethau Ysgolion Gwynedd ym Mae Colwyn ar Sadwrn, Mehefin 22.

Manon Williams, Caroline Jones, Caitlin Wroe, Sandra Nisbett, Eryl Roberts, Anwen Parry, Louise Murphy, Andrew Lawrence, Jonathan Davies, Rowan Thomas, Arwel Jones, Raphael Ginsberg, Arfon Roberts, Colin Jones, Jonathan Williams. Gwelir y rhan fwyaf

ohonynt yn y llun uchod.

Dewiswyd hefyd dim athletau bechgyn Bl 2, genethod Bl 2 a bechgyn Bl 4 i gystadlu ym Mae Colwyn ddydd Mercher, Mehefin 26 ym Mhencampwriaethau'r Bwrdd Marchnata Llaeth.

Crïced

Tlws Ysgolion Gwynedd dan 14 oed ym Methesda) Colli fu hanes yr ysgol. Brynrefail 49 am 8 wiced mewn 20 pelawd. Bethesda 50 am 2 wiced mewn 12 pelawd.

Dyddiadur y Mis

Gorffennaf 1991

2. Mawrth. Waunfawr: Pwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan, 8.00

3. Mercher. Deiniolen a'r Ardal: Antur Padarn yn y Ganolfan, 7.00. Deiniolen: Cyngerdd Coroni, 6.00.

4. Iau. Bangor: Darlith — Daeareg Gogledd Cymru yn y Brifysgol, 7.30. Brynrefail: Cymdeithas y Chwirydd. Deiniolen: Ras Hwyl.

5. Gwener. Deiniolen: Bingo, 6.00. Sefydliad y Merched, Taith Ddirgel.

6. Sadwrn. Llanrug: Capel Mawr — Trip Ysgol Sul. Bethel: Trip Ysgol Sul Eglwysy'r Pentref. Cwmyglo: Yr Ysgol — Sêl Cist Car ar fuarth yr ysgol, 11 y bore tan 4 o'r gloch. Deiniolen: Carnifal, 1 o'r gloch.

7. Sul. Nant Peris: Taith Ddaearegol i gopa'r Wyddfa. Cychwyn o'r maes parcio 11 y bore. Penisarwaen: Cymafia Ganu yn Eglwys Santes Helen.

8. Llun. Llanberis: Amgueddfa'r Gogledd — Darlith ar Hanes Mwyngloddio yng ngogledd Cymru, 7.30. Penisarwaen: Noson Chwaraeon. Yr Ardal: Mabolgampau Sir yr Urdd.

10. Mercher. Penisarwaen: Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

11. Iau. Llanrug: Canolfan Hafan Elan, Noson Goffi, 7.00. Dinorwig: Danfon nwyddau stondin Hwyl Haf i'r Ganolfan, 6-8 o'r gloch.

12. Gwener. Deiniolen: Bingo Ystafell y Band, 8.00. Llanberis: Amgueddfa'r Gogledd, Darlith — Daeareg a Thirlun Gogledd Cymru, 7.30. Llanrug:

Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol — Miri Haf a Barbeciw ar gae'r Ysgol.

13. Sadwrn. Llanberis: Amgueddfa'r Gogledd — 'Sioe Craig a Ffossil' o 11 tan 4 o'r gloch. Penisarwaen: Carnifal. Dinorwig: Hwyl Haf yn Allt Ddu, 1.30 ymlaen.

15. Brynrefail: Sefydliad y Merched — Taith Ddirgel, cychwyn 6.30.

16. Mawrth. Deiniolen: Cymdeithas Rhieni Ysgol Gwaun Gynfi — Barbeciw ar iard yr ysgol.

19. Gwener. Deiniolen: Bingo — Ystafell y Band, 8.00.

20. Sadwrn. Bethel: Carnifal a Barbeciw.

26. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Deiniolen: Trip Merched y Wawr.


29. Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.

DRAENOG



Llongyfarchiadau i "Sesil B ddy Mul" o Lanrug ar ei waith ffilmio arbennig mewn cyngerdd uchelgeisiol ym Mangor yn ddiweddar. Roedd yn fwrriad gwerthu fideos o'r campwaith artistig. Ond och a gwael Gadawodd y tâp yn ddi-ofal, a recordiwyd rhaglen deledu drosto gan un o'r meibion. "Cut"!

CROESAIR GORFF/AWST



I Lawr


1. Mae rhegfeydd yn—fy nghlust (7)
2. Nid yw fel brwynen (3)
3. Mieri neu ddain (5)
4. Enwau cywir y tlysau yn 8 ar draws (7)
5. Yr un bren i rygbi Cymru eleni (3)
6. 'Andes' Sir Gaernarfon (5)
10. Digon o hwn wrth fwyta'n iach (1,4)
11. Rhoi 'o bach' i faban neu anifail (5)
13. Plentyn ysgol (7)
- 16 a 14. '--- wen' yw'r unawd (5)(1,6)
18. Nifer o flodau i'w cyflwyno (1,4)
20. O'r geni i'r marw (3)
21. Tacius iawn (3)

Ar Draws

2. Ymaflyd hwn (5)
5. Llefrith i rai (4)
7. Offeryn cerdd (4)
8. Tlysau Efydd a geir am fod— (2,6)
9. Gwendid mewn personoliaeth (8)
11. Y fam fendigaidd (4)
12. Crwydro ar hyd yr Elidir Fawr a'r Elidir Fach (5,3,5)
15. Hedfannog rai (4)
17. Dwy fuwch heb loi (8)
21. 'Llew o beth -' (4)
22. Cynnwys (4)
23. Mangre'r 'Daffodil' (5)

CROESAIR MEHEHIN Atebion ac Enillwyr

Deg o atebion cywir y mis hwn. Mae'r croeseirwyr yn gwella! Mân gamgymeriadau gadwodd y lleill rhag cael atebion perffaith gywir — e.e. 'cantref' yn hytrach na 'hendref' am 1 i lawr. Diolch i bawb am gystadlu. Yr enw lwcus o'r het y mis hwn yw: H O Hughes, Annedd Wen, Y Ffôr.



CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

CHWARAEON

PYSGOTA

Adroddiad H. P. Hughes

Am gyfnod o tua mis, hyd at yr ail wythnos ym Mehefin, roedd yr afonydd yn dangos eu hesgyrn, a phygsgota yn mynd ymlaen ond mewn sgysiau rhwng y naill a'r llall.

Ond cyn gynted ag y daeth y glaw fe welwyd y Sewin mawr, sef y rhai cyntaf o'r tymor yn dod i fyny'r Seiont. Clywais i aml un gael ei fachu a'i golli, ond nid felly y bu i Gerald Morris, Llanrug. Fe ddaliodd o un mawr braf yn pwyso 9 bwys yng nghyffiniau Llyn Garreg Fawr, yr un trymaf o'r afon ers tua pedair blynedd.

Fe ddaliwyd yr eog cyntaf o'r tymor hefyd yn nyfroedd y Gymdeithas, sef yn Llyn Tro ar y Llyfni, roedd yn pwyso 9 pwys.

Does dim sôn am yr un o'r Gwyrfaei hyd yma.

Mae sgota â'r bluen ar Lyn Padarn wedi bod yn siomedig iawn hyd yn hyn, ond rwy'n siŵr, pan gawn dipyn o gynhesrwydd, fe welwn wellhâd. Stori arall oedd sgota llyn gyda chynthron. Fe welwyd brithyll brown a thorgoch mewn cyflwr ardderchog yn dod i'r rhwyd.

Ers blynnyddoedd bellach bu'r gymdeithas yn trefnu fod tocynnau dyddiol ar gael i bysgotwyr glannau Merswy fel hwylusdod iddynt gael mwynhau cyfleusterau llyn Padarn. Yn anffodus, mae nifer o sgotwyr yr ardal honno wedi eu dal yn torri rheolau'r Clwb, felly ni fydd y tocynnau ar gael iddynt o hyn ymlaen. Ni all Clwb na Chymdeithas ddioddef ymddygiad o'r math a dystiwyd gan rai ohonynt.

Yn wahanol i Padarn, mae Cwellyn wedi sgota'n eithriadol o dda, gyda John Jones o Fethel yn cael brithyll brown yno yn pwyso 3 pwys 10 owns. Rwyf bron yn sicr mai hwn yw'r trymaf o'r llyn o fewn cof. Os nad oes rhywun arall yn gwybod yn well wrth gwrs!

Wrth gloi fe hoffwn ddiolch i Mr J Jones, Rheolwr Cymdeithas Adeiladu'r 'Cheltenham & Gloucester', Caernarfon am drosglwyddo cwpan i'r Clwb i'w rhoi yn flynyddol i enillydd cystadleuaeth 'Sgota Dywarchen'. Yr enillydd cyntaf oedd Merfyn Harris, y Felinheli ac enillydd cystadleuaeth yr aelodau iau oedd Richard Roberts o Seion.

Y CWIS

Y Caeau Rasio Di-ras

Wel, yn Saesneg beth bynnag. Fe gofiwch i mi ofyn y mis diwethaf am y pedwar cwrs rasio ceffylau sydd heb yr un o'r llythrennau R A C nac E yn yr enw. Chefais i mo'r ateb cyfan gan neb, yn wir dau ydi'r gorau a gynigiwyd i mi. Os oedd o'n rhy anodd, rhowch y bai ar Mel Jones o Lanrug, ei gwestiwn o oedd o, a dyma'r atebion, sef **Goodwood, Ludlow, Plumpton a Huntingdon**. Am weddill y cwestiynau, wel, roedd **Tommy Hutchinson** yn 42 mlwydd oed pan chwaraeodd bêl -droed Ewropeaidd dros Abertawe; **Peterborough** sy'n chwarae ar London Road; ym **Mrasil** mae stadiwm Maracana a thîm **Walsall** a elwir y Saddlers. Bu Trevor Ford yn chwarae dros **Abertawe, Aston Villa, Sunderland a Chaerdydd** yng nghynghrair Lloegr ac fe gynhelir **Cwpan y Byd 1994 yn U D America**. **Johnny Haynes, Fulham** oedd y pêl-droediwr Prydeinig cyntaf i gael 100 yr wythnos, **Paul Elliott** ddaeth o Pisa i Celtic ac wrth gwrs, ar **Port Vale** y bu Stanley Matthews yn rheolwr.

Gan mai wythnos y 'Royal Ascot' ydi hon, ar rasio ceffylau y sefydlir cwestiynau'r mis hwn, ac ia, Mel bia'r cwestiwn cyntaf eto.

1. Enwch y pedwar ceffyl sydd â'u henwau yn dechrau efo 'S' sydd wedi ennill y Derby yn yr wythdegau?

2. Pa geffyl enillodd y Prix de l'Arch de Triomphe ddwywaith yn olynol, sef yn '77 a '78?

3. Ymhle yn Lloegr mae Snowdon Park?

4. Beth yw'r oed ieuengaf y caiff ceffyl rasio yn y Grand National?

5. Pa un yw'r cwrs rasio ceffylau mwyaf gogleddol ym Mhrydain?

6. Beth oedd enw'r ceffyl, o eiddo'r Frenhines, a enillodd yr Oaks a'r St Leger yn 1977?

7. Pwy oedd ar gefn Red Rum pan enillodd ei ddwy Grand National cyntaf?

8. Pwy oedd yr hyfforddwr fu'n gyfifol am y pum ceffyl cyntaf yng Nghwpan Aur Cheltenham yn 1983?

9. Unwaith yn unig yr enillodd Gordon Richards y Derby, beth oedd enw'r ceffyl?

10. Pwy oedd y joci ieuengaf i ennill y Grand National, yn 17 mlwydd oed?

CARNIFAL LLANBERIS



★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Nos Wener, Gorffennaf 12

Y Ganolfan am 7 o'r gloch

CORONI FRENHINES Y CARNIFAL

Dawnsio Disgo ★ Aerobics ★ Sioe Ffasiwn

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13

ar Gae'r Ddôl am 10.30 o'r gloch

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED

I FECHGYN 14 OED A IAU

Nos Sul, Gorffennaf 14

Capel Coch am 7.30 o'r gloch

NOSON O GÂN

gyda Chôr Meibion y Fflint

a Phlant Ysgol Dolbadarn

Nos Lun, Gorffennaf 15

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

GYRFA CHWIST

Gwesty Llyn Padarn am 8 o'r gloch

CYSTADLEUAETH PWL

Nos Fawrth, Gorffennaf 16

Gwesty Prince of Wales am 8 o'r gloch

FFEINAL CWIS DARTIAU

Nos Fercher, Gorffennaf 17

Clwb Lleng Prydeinig am 7 o'r gloch

CYSTADLEUAETH DDARTIAU

Y Ganolfan am 6 – 7.30 o'r gloch

DISGO PLANT HYN

Y Ganolfan am 8 – 10 o'r gloch

DISGO PLANT IAU

Nos Iau, Gorffennaf 18

Ddôl y Goeden am 6 o'r gloch

PEL-DROED A PHÊL RWYD

Nos Wener, Gorffennaf 19

Clwb Lleng Prydeinig am 7.30 o'r gloch

BINGO

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13

Y CARNIFAL

Yr orymdaith yn gadael y Swyddfa Bost
am Ddôl y Goeden am 1 o'r gloch

Cystadleuthau Gwisg Ffansi (unrhyw wisg)

Ffair ★ Para-Gleidwyr ★ Gemau ★ Hen Geir

Trên Bach ★ Modelau Awyrennau ★ Castell

Neidio ★ Dynes dweud Ffortiwn ★ Gymnasteg

Gwasanaeth Achub gyda Hofrenydd

Gwasanaeth Tân ★ Cymorth Cyntaf

Gwerthiant o Gefn Ceir ★ Cwn Poeth

Hufen Ia ★ Lluniaeth